QAA CYMRU

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

Mae'r dull adolygu hwn yn cydymffurfio â'r ESG

# Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru

## Y Llawlyfr

Tachwedd 2020

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg

## Cynnwys

**Trosolwg o'r broses Adolygiad Ansawdd Porth ........ 1**
**Pennod 1: Cyflwyniad a throsolwg o Adolygiad Ansawdd Porth ........ 3**
Cyflwyniad ........ 3
Amcanion Adolygiad Ansawdd Porth ........ 3
Cwmpas a chynnwys ........ 3
Gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol ........ 4
Y canlyniadau: Beirniadaethau a phwyntiau cyfeirio ........ 5
Camau'r Adolygiad Ansawdd Porth ........ 6
**Pennod 2: Y rolau a'r cyfrifoldebau allweddol ........ 8**
Yr hwylusydd ........ 8
Cyfranogaeth myfyrwyr yn y broses Adolygiad Ansawdd Porth ........ 8
Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ........ 8
Rôl cyrff dyfarnu graddau a sefydliadau dyfarnu eraill ........ 9
Yr adolygwyr a'r timau adolygu ........ 9
Y Swyddog QAA ........ 10
Y Rheolwr Sicrhau Ansawdd QAA ........ 10
**Pennod 3: Paratoi ar gyfer yr ymweliad ar y safle ........ 11**
Trosolwg o amserlen y gweithgareddau cyn yr ymweliad ar y safle ........ 11
Y cysylltiad cyntaf gyda QAA ........ 12
Yr asesiad cychwynnol o'r darparwr ........ 12
Sesiynau briffio QAA i ddarparwyr ........ 13
Hyd yr ymweliad ar y safle a chyfansoddiad y tîm adolygu ........ 13
Cyflwyniad y darparwr a'r dystiolaeth ategol ........ 14
Cyflwyniad y myfyrwyr ........ 14
Llwytho cyflwyniad y darparwr a chyflwyniad y myfyrwyr (saith wythnos cyn yr ymweliad ar y safle) ........ 14
Defnyddio data yn y broses Adolygiad Ansawdd Porth ........ 14
Pryderon sydd gan CCAUC am ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch ........ 15
Y dadansoddiad pen desg gan y tîm adolygu (pedair wythnos cyn yr ymweliad ar y safle) ... 15
Rhith-gyfarfod y tîm adolygu (pythefnos cyn yr ymweliad ar y safle) ........ 15
**Pennod 4: Yr ymweliad ar y safle (wythnos 0) ........ 16**
**Pennod 5: Ar ôl yr ymweliad ar y safle ........ 17**
Amserlen y gweithgareddau ar ôl yr ymweliad ar y safle ........ 17
Yr adroddiad Adolygiad Ansawdd Porth ........ 17
Y broses ar gyfer beirniadaethau 'anfoddhaol' ........ 18
Y cynllun gweithredu a'r camau dilyniant ........ 20
**Atodiad 1: Diffiniadau o dermau allweddol ........ 21**
**Atodiad 2: Cyflwyniad y darparwr a'r fframwaith ar gyfer hunanwerthuso yn erbyn y gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol ........ 23**
**Atodiad 3: Yr iaith Gymraeg ........ 28**
**Atodiad 4: Rhestr wirio o gyfrifoldebau ar gyfer darparwyr sydd heb bwerau dyfarnu graddau ........ 29**
**Atodiad 5: Fframwaith asesu ar gyfer penderfynu ar y beirniadaethau mewn Adolygiad Ansawdd Porth ........ 30**
**Atodiad 6: Rôl yr hwylusydd ........ 32**
**Atodiad 7: Cyfranogaeth y myfyrwyr mewn Adolygiad Ansawdd Porth (yn cynnwys cyflwyniad y myfyrwyr) ........ 34**
**Atodiad 8: Penodi, hyfforddi a rheoli adolygwyr ........ 37**
**Atodiad 9: Canllawiau am lunio cynllun gweithredu ........ 39**
**Atodiad 10: Y broses apelio ar gyfer Adolygiad Ansawdd Porth ........ 40**

**Cydymffurfiad â'r ESG**
Mae'r Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG) yn darparu'r fframwaith ar gyfer trefnau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol yn Ardal Addysg Uwch Ewrop. Mae dulliau adolygu QAA yn cydymffurfio â'r safonau hyn, ac felly hefyd yr adroddiadau a gyhoeddir gennym. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar ein gwefan.

# Trosolwg o'r broses Adolygiad Ansawdd Porth

Datblygwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn 2018. Mae'r broses yn elfen allweddol o'r *Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.*[1]

**Ffigur 1: Y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru**

| Y Fframwaith Asesu Ansawdd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Y broses Adolygiad Ansawdd Porth** | **Trefniadau i ddarparwyr sefydledig** | **Ymyriad teilwredig ond hynod gyflym** | **Safonau graddau a chymharu** | **Yr enw da drwy'r byd i gyd** |
| Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru | Trefniadau adolygu seiliedig ar risg<br><br>Craffu ar ddata<br><br>Sicrwydd blynyddol gan y corff llywodraethu<br><br>Ymweliadau bob tair blynedd<br><br>Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr | Proses gwyno CCAUC<br><br>Cyfarwyddyd<br><br>Pwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC | Deall algorithmau gradd<br><br>Chwyddiant / gwelliant graddau<br><br>Dosbarthiad Graddau i'r DU gyfan – *Datganiad o Fwriad*<br><br>Datganiadau sefydliadol o safonau graddau<br><br>Archwilio allanol, datblygiad proffesiynol a graddnodi | Y Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd i'r DU<br><br>Ymweliadau adolygu tramor |

Bydd Adolygiad Ansawdd Porth yn caniatáu i ddarparwr ddangos ei gydymffurfiad â'r gofynion ansawdd sylfaenol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Dyma nhw:

- y disgwyliad bod safonau academaidd y cyrsiau'n bodloni gofynion y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol perthnasol; sef, yng Nghymru, y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC)

- y Disgwyliadau sydd wedi'u nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU mewn perthynas â darpariaeth y sefydliad drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd.

- yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi'u nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU mewn perthynas â darpariaeth y sefydliad drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd.[2]

Bydd modd i ddarparwyr ddefnyddio canlyniadau llwyddiannus Adolygiadau Ansawdd Porth fel tystiolaeth i ddangos bod ansawdd eu darpariaeth addysg uwch wedi'i sicrhau yn erbyn y gofynion rheoleiddiol sylfaenol. Gallai hyn, yn ei dro, hysbysu cais am ddynodiad penodol yng Nghymru neu Gynllun Mynediad a Ffioedd. Mae rhagor o wybodaeth am y prosesau hyn ar wefan CCAUC ynghyd â gwybodaeth am y ffordd y bydd CCAUC yn defnyddio canlyniadau Adolygiadau Ansawdd Porth.

---

1 www.hefcw.ac.uk/cy/document/qaf-april-2020-cymraeg
2 www.qaa.ac.uk/cy/y-cod-ansawdd

Mae'r broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru, sy'n rhan o'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru, yn bodloni gofynion y Swyddfa Gartref o ran sicrhau ansawdd mewn perthynas â goruchwyliaeth addysgol ar ddarparwyr a reoleiddir a darparwyr gyda dynodiad penodol sy'n gwneud cais am Drwydded Haen 4 gan y Swyddfa Gartref. CCAUC yw'r corff sy'n gyfrifol am gadw goruchwyliaeth addysgol ar sefydliadau a reoleiddir yng Nghymru a darparwyr addysg uwch yng Nghymru sydd â chyrsiau gyda dynodiad penodol nad ydynt o dan oruchwyliaeth addysgol Estyn.

Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth i sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn profiad academaidd o safon uchel a bod safonau academaidd yn cael eu gosod yn briodol ac yn parhau'n ddiogel.

Lluniwyd y broses i fod yn drwyadl ac yn gymesur ac i ddarparu'r sicrwydd sy'n bwysig i fyfyrwyr am safonau academaidd, canlyniadau'r myfyrwyr, a'r profiad academaidd. Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth drwy ystyried y *Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop* (ESG)[3].

Tîm o adolygwyr hyfforddedig sy'n gymheiriaid neu'n fyfyrwyr fydd yn gwneud yr Adolygiad Ansawdd Porth. Bydd yn profi trefniadau'r darparwr yn erbyn y gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol i sicrhau bod y darparwr yn gallu darparu profiad academaidd o safon uchel gyson i'w fyfyrwyr a bod y safonau academaidd yn ddiogel.

Mae myfyrwyr yn ganolog i Adolygiad Ansawdd Porth. Mae cyfleoedd i fyfyrwyr y darparwr gymryd rhan yn yr Adolygiad Ansawdd Porth, gan gynnwys trwy gyfrannu at gyflwyniad y myfyrwyr, cwrdd â'r tîm adolygu yn ystod yr ymweliad ar y safle, gweithio gyda'r darparwr mewn ymateb i ganlyniadau'r adolygiad, a gweithredu fel y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Yn ogystal, bydd timau adolygu fel arfer yn cynnwys adolygwr sy'n fyfyriwr.

**Mae'r llawlyfr hwn yn disgrifio'n fanwl y dull o wneud Adolygiad Ansawdd Porth i ddarparwyr sy'n cael eu hadolygu o 2020-21 ymlaen.**

3 www.enqa.eu/wp-content/uploads/2015/11/ESG_2015.pdf

# Pennod 1: Cyflwyniad a throsolwg o Adolygiad Ansawdd Porth

## Cyflwyniad

Bydd QAA yn gwneud Adolygiadau Ansawdd Porth o ddarparwyr addysg uwch i:

- brofi eu darpariaeth addysg uwch yn erbyn y gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol o ran ansawdd
- ail brofi yn erbyn agweddau'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol sy'n ymwneud ag ansawdd ar ddiwedd cyfnod o bedair blynedd, pan fydd y darparwr yn gofyn iddynt wneud hynny.

Telir costau'r adolygiad gan y darparwr sy'n cael ei adolygu. Pwrpas y llawlyfr hwn yw:

- nodi amcanion Adolygiad Ansawdd Porth
- disgrifio'r dull sydd i gael ei ddefnyddio
- rhoi arweiniad i ddarparwyr sy'n paratoi ar gyfer, ac sy'n cymryd rhan mewn, Adolygiadau Ansawdd Porth.

Mae'r llawlyfr wedi'i fwriadu'n bennaf i ddarparwyr sy'n cael Adolygiad Ansawdd Porth.

Mae wedi'i fwriadu hefyd i dimau sy'n gwneud Adolygiadau Ansawdd Porth, ac i roi gwybodaeth ac arweiniad i gyrff dyfarnu graddau a sefydliadau dyfarnu sy'n cymryd rhan mewn Adolygiadau Ansawdd Porth o ddarparwyr sy'n darparu cyrsiau sy'n arwain at eu dyfarniadau.

## Amcanion Adolygiad Ansawdd Porth

Nod cyffredinol Adolygiad Ansawdd Porth yw galluogi i ddarparwr ddarparu tystiolaeth, wrth iddo wneud cais am ddynodiad penodol yng Nghymru neu Gynllun Mynediad a Ffioedd, i ddangos bod ansawdd ei ddarpariaeth addysg uwch yn cael ei sicrhau.

Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth i:

- sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu
- sicrhau bod enw da system addysg uwch y DU yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys diogelu safonau academaidd
- bennu meysydd sydd angen eu datblygu a/neu welliannau penodol a fydd yn helpu'r darparwr i fodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

## Cwmpas a chynnwys

Mae Adolygiad Ansawdd Porth yn cynnwys y canlynol:

- rhaglenni astudio sy'n arwain at ddyfarniadau ar Lefelau 4 i 8 yn y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC)[4], ac at Dystysgrifau Cenedlaethol Uwch a Diplomâu Cenedlaethol Uwch.
- rhaglenni astudio sy'n arwain at ddyfarniadau ar Lefelau 4 i 8 ar gyfer cymwysterau a reoleiddir yn Lloegr,[5] Cymru[6] a Gogledd Iwerddon, ac ar Lefelau 7 i 10 ar gyfer cymwysterau a reoleiddir yn yr Alban[7]

---

[4] *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC): https://llyw.cymru/fframwaith-credydau-chymwysterau
[5] *Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig* (RQF) Lloegr a Gogledd Iwerddon: www.ofqual.gov.uk
[6] Cymwysterau Cymru: www.qualificationswales.org/cymraeg
[7] *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban* (SCQF): www.scqf.org.uk

- rhaglenni blwyddyn sylfaen integredig,[8] sydd wedi'u llunio i alluogi mynediad i raglen radd benodol neu i raglenni gradd penodol ar ôl eu cwblhau'n llwyddiannus.

Bydd pob rhaglen addysg uwch o'r fath a gynigir gan ddarparwyr, gan gynnwys y rheiny a gynigir drwy drefniadau addysg drawswladol ac unrhyw fath arall o ddarpariaeth sy'n rhan o gyfrifoldebau'r darparwr am addysg uwch, o fewn cwmpas y dull adolygu hwn. Gall QAA gynghori darparwyr sy'n ansicr a yw rhaglenni o fewn cwmpas Adolygiad Ansawdd Porth.

## Gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol

Mae Adolygiadau Ansawdd Porth yn cynnwys gwaith craffu'n fanwl ar allu'r darparwr i fodloni'r elfennau hynny o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr, ac â sicrhau safonau academaidd.

Mae'r pwyntiau cyfeirio allanol sy'n cynnwys y gofynion rheoleiddiol sylfaenol yn bodoli'n barod yn y tirlun rheoleiddio ac maent yn tanategu'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

**Tabl 1: Y gofynion rheoleiddiol sylfaenol yr adolygir darparwyr yn eu herbyn**

| Elfen y gofynion rheoleiddiol sylfaenol | Ffocws |
|---|---|
| *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) | Y safon academaidd a osodir ar gyfer, ac a gyflawnir gan, eich myfyrwyr[9]. |
| *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC) | Sut y sicrheir aliniad a sut mae darparwyr yn hwyluso'r gwaith o gasglu a throsglwyddo credydau yng nghyd-destun y Fframwaith. |
| Y Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi'u nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU | Mae'r Cod yn disgrifio'r egwyddorion sylfaenol y dylid glynu atynt i sicrhau ansawdd addysg uwch. Mae'r rhain yn cynnwys egwyddorion megis pwysleisio rôl y darparwyr yn y gwaith o sicrhau ansawdd y cyfleoedd dysgu y maent yn eu cynnig i'w myfyrwyr, cefnogi ymgysylltiad y myfyrwyr, a sicrhau y defnyddir pwyntiau cyfeirio allanol er mwyn sicrhau cywirdeb y dyfarniadau ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae hyn yn berthnasol i ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd.<br><br>Mae gan y Cod dair elfen sydd, gyda'i gilydd, yn darparu pwynt cyfeirio ar gyfer sicrhau ansawdd yn effeithiol: Disgwyliadau, Arferion Craidd ac Arferion Cyffredin.<br><br>Bydd QAA yn adolygu i ba raddau y cyfeirir at y Cod a sut y cafodd ei fabwysiadu yng nghyd-destun penodol darpariaeth addysg uwch y darparwr a'i genhadaeth. Mae hyn yn cynnwys ystyried pa mor effeithiol y mae'r darparwr yn cyflawni'r canlyniadau sydd wedi'u nodi yn y Disgwyliadau a sut y dangosir bod yr Arferion yn cael eu gweithredu wrth gyflawni'r Disgwyliadau. |

[8] Mewn perthynas â rhaglenni blwyddyn sylfaen integredig, efallai y bydd yn rhaid defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol eraill, yn ychwanegol at y Cod Ansawdd, i osod safonau academaidd ar gyfer yr elfen blwyddyn sylfaen. Os yw'r elfen blwyddyn sylfaen yn sefyll ar ei phen ei hun ac nad oes ganddi berthynas uniongyrchol â rhaglen addysg uwch benodol, nid yw'n atebol i'r Cod Ansawdd ac mae y tu allan i'w gwmpas, ond gallai fod yn atebol i ofynion rheoliadol eraill.

[9] Disgwylir i'r darparwyr hynny sydd â phwerau dyfarnu graddau osod a chynnal safonau'n effeithiol. Disgwylir i'r rheiny sydd heb bwerau dyfarnu graddau gynnal y safonau a osodir gan y corff dyfarnu neu'r sefydliad dyfarnu.

## Y canlyniadau: Beirniadaethau a phwyntiau cyfeirio

Gofynnir i'r timau adolygu ystyried trefniadau'r darparwr yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol, ac i ystyried y canlynol yn arbennig:

a dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir mewn darparwyr eraill yn y DU

b ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r myfyrwyr lle mae gan y darparwr hanes o ran darpariaeth addysg uwch.

Bydd Adolygiad Ansawdd Porth yn rhoi sylwadau ar allu'r darparwr i fodloni'r Safonau Iaith Gymraeg mewn perthynas â phrofiad academaidd y myfyrwyr a safonau academaidd, ond ni fydd yr elfen sylfaenol hon yn cyfrannu at feirniadaethau ffurfiol yr Adolygiad Ansawdd Porth.

Ar gyfer (a) a (b) uchod, bydd canlyniadau'r Adolygiad Ansawdd Porth yn feirniadaethau a fydd yn cael eu mynegi fel un o'r canlynol:

1 '**Hyder**' bod:

a y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn cymharu'n rhesymol â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yn y DU

b ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

2 '**Hyder cyfyngedig**', yn gofyn am welliannau penodol cyn y gellir teimlo 'hyder' bod:

a y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn cymharu'n rhesymol â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yn y DU

b ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

3 '**Dim hyder**' ar hyn o bryd bod:

a y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn cymharu'n rhesymol â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yn y DU

b ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

Bydd timau o gymheiriaid yn gwneud beirniadaethau yn erbyn y gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol. Mae'r beirniadaethau'n cynrychioli'r casgliadau rhesymol y gall tîm adolygu ddod iddynt ar sail y dystiolaeth a'r amser sydd ar gael iddynt.

Ystyrir y beirniadaethau o 'hyder' yn foddhaol. Ystyrir y beirniadaethau o 'hyder cyfyngedig' a 'dim hyder' yn anfoddhaol.

Os bydd y darparwr yn defnyddio'r canlyniadau fel tystiolaeth mewn cais am ddynodiad penodol yng Nghymru neu Gynllun Mynediad a Ffioedd, bydd hyn yn galluogi i CCAUC ystyried y canlyniadau hynny a'u defnyddio'n llawn wrth benderfynu ar gais y darparwr. Yn Atodiad 5, mae'r meini prawf y bydd timau adolygu'n eu defnyddio i wneud eu beirniadaethau.

## Camau'r Adolygiad Ansawdd Porth

Mae'r Adolygiad Ansawdd Porth yn digwydd mewn pum cam.[10]

Cyn i'r broses ddechrau, anogir y darparwr i gysylltu â CCAUC i drafod ei fwriad i wneud cais am ddynodiad, naill ai drwy ddynodiad penodol neu drwy Gynllun Mynediad a Ffioedd. Yna bydd angen i'r darparwr hysbysu QAA am ei fwriad i gomisiynu Adolygiad Ansawdd Porth. Bydd yr holl wybodaeth am gostau a thaliadau disgwyliedig ar gael i ddarparwyr o flaen llaw. Bydd QAA yn rhoi gwybod i CCAUC pan fydd wedi cael ei chomisiynu i wneud Adolygiad Ansawdd Porth.

Mae **Cam 1** yn gofyn bod QAA yn cysylltu â'r darparwr i drafod trefniadau adolygu, yn cynnwys pa iaith a ddewiswyd gan y darparwr a'r cyfranogwyr unigol i wneud yr adolygiad ynddi, a pha elfennau o'r broses adolygu sydd i gael eu gweithredu yn y Gymraeg.

Mae **Cam 2** yn cynnig asesiad pen desg cychwynnol o ddarparwyr (asesiad cychwynnol o'r darparwr) a wneir gan Swyddog QAA i bennu'r dull sy'n fwyaf priodol i bob darparwr o wneud Adolygiad Ansawdd Porth ac o ddarparu sesiynau briffio iddynt. Gallai'r rhain fod yn rhai wyneb yn wyneb neu rithwir. Bydd sesiynau briffio rhithwir yn cael eu trefnu fel sesiynau un-i-un pwrpasol gyda phob darparwr. Ar ôl cael eu briffio, bydd y darparwr a'i fyfyrwyr yn paratoi ac yn llwytho eu cyflwyniadau a'r dystiolaeth ategol.

Mae **Cam 3** yn gweld adolygwyr yn gwneud dadansoddiad pen desg o gyflwyniad y darparwr ochr yn ochr â data perthnasol a ddarperir gan CCAUC, lle mae ar gael, a gwybodaeth gyd-destunol arall. Mae'r darparwr yn rhoi rhywfaint o'r wybodaeth hon, gan gynnwys cyflwyniad y darparwr, mae myfyrwyr yn rhoi rhywfaint hefyd ac mae'r gweddill yn cael ei chasglu gan QAA a/neu ei darparu gan CCAUC. Yn ystod y cam yma, bydd y tîm adolygu'n cynnal rhith-gyfarfod i drafod ei waith dadansoddi.

Mae **Cam 4** yn ymweliad ar y safle â'r darparwr. Mae'r ymweliad ar y safle'n caniatáu i'r tîm adolygu gwrdd â rhai o fyfyrwyr a staff y darparwr (a rhanddeiliaid eraill, lle bo'n briodol) a chraffu ar wybodaeth ychwanegol.

Os yw'r ddarpariaeth addysg drawswladol yn cael ei hadolygu, bydd y Swyddog QAA yn edrych ar faint a chymhlethdod y ddarpariaeth, ac yna, gyda'r darparwr, bydd yn cytuno ar ddull priodol o adolygu ei ddarpariaeth addysg drawswladol. Er enghraifft, gallai QAA gynnal cynhadledd fideo gyda champysau cangen tramor neu bartneriaid darparu tramor, gan gynnwys gyda'r staff a/neu'r myfyrwyr, yn rhan o'r ymweliad ar y safle yn y DU.

Bydd ymweliadau ar y safle'n parhau am ddau ddiwrnod fel arfer, ond gallai hyn amrywio, yn dibynnu ar ganfyddiadau'r asesiad cychwynnol o'r darparwr. Bydd y rhaglen yn amrywio hefyd i bob darparwr ond bydd hyn wedi'i seilio ar ganfyddiadau dros dro gan y tîm adolygu cyn yr ymweliad ar y safle. Ar ddiwedd yr ymweliad ar y safle, bydd y tîm adolygu'n cynnal cyfarfod preifat i gytuno ar ei feirniadaethau a'i ganfyddiadau eraill.

Bydd y tîm adolygu'n defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, pan fydd angen.

**Cam 5** yw pan fo'r tîm adolygu, gan weithio gyda'r Swyddog QAA, yn cynhyrchu adroddiad i CCAUC ac i'w gyhoeddi. Bydd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi ar wefan QAA yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallai'r cam yma hefyd gynnwys cynllunio camau dilyniant a chamau gweithredu. Mae pob darparwr sydd wedi cael canlyniad boddhaol yn gymwys i ddefnyddio Graffigyn Adolygiad QAA.[11]

---

[10] Nodwch y bydd unrhyw drefniadau ymweld yn amodol ar y cyfarwyddyd llywodraethol perthnasol yn ymwneud â'r clefyd COVID-19.

[11] www.qaa.ac.uk/docs/qaa/reports/qaa-review-graphic-terms.pdf (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd)

**Tabl 2: Trosolwg o Adolygiad Ansawdd Porth**

| Y cam | QAA | Y darparwr |
|---|---|---|
| **Cam 1**<br><br>Y cysylltiad cyntaf rhwng QAA a'r darparwr | O leiaf 15 wythnos cyn yr ymweliad ar y safle | |
| | QAA yn hysbysu'r darparwr mewn ysgrifen am y trefniadau ar gyfer y broses Adolygiad Ansawdd Porth. | Y darparwr yn enwebu ei hwylusydd a'i Brif Gynrychiolydd Myfyrwyr.<br><br>Canfod pa iaith a ddewiswyd gan y darparwr a'r cyfranogwyr unigol i wneud yr adolygiad ynddi. |
| **Cam 2**<br><br>Paratoi a chyflwyno | O leiaf 11 wythnos cyn yr ymweliad ar y safle | |
| | QAA yn gwneud yr asesiad cychwynnol o'r darparwr.<br><br>QAA yn trefnu sesiwn briffio i'r darparwr, a allai fod yn sesiwn wyneb yn wyneb neu rithwir.<br><br>QAA yn cadarnhau hyd yr ymweliad ar y safle a chyfansoddiad y tîm adolygu. | Y darparwr yn mynychu'r sesiwn briffio.<br><br>Y darparwr yn rhoi gwybod am unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. |
| | 7 wythnos cyn yr ymweliad ar y safle | |
| | | Y darparwr yn paratoi ac yn llwytho ei gyflwyniad a'r dystiolaeth ategol.<br><br>Y myfyrwyr yn paratoi eu cyflwyniad. Llwythir cyflwyniad y myfyrwyr ar yr un pryd â chyflwyniad y darparwr. |
| **Cam 3**<br><br>Dadansoddiad pen desg o'r cyflwyniad a'r dystiolaeth ategol | 4 wythnos cyn yr ymweliad ar y safle | |
| | Y tîm adolygu'n gwneud dadansoddiad pen desg. | |
| | 2 wythnos cyn yr ymweliad ar y safle | |
| | Y tîm adolygu'n cynnal rhith-gyfarfod y tîm; QAA yn hysbysu'r darparwr am raglen yr ymweliad, pwy mae'r tîm eisiau cyfarfod â nhw ac unrhyw gais am dystiolaeth ychwanegol. | Y darparwr yn paratoi ar gyfer yr ymweliad adolygu ar y safle. |
| **Cam 4**<br><br>Yr ymweliad ar y safle | Wythnos yr ymweliad ar y safle | |
| | Gwneir yr ymweliad ar y safle. | |
| **Cam 5**<br><br>Adrodd am y canlyniadau | Wythnos ar ôl yr ymweliad ar y safle | |
| | Safoni'r canfyddiadau. | |
| | 3 wythnos ar ôl yr ymweliad ar y safle | |
| | Cwblhau'r adroddiad drafft a'i anfon at y darparwr. | |
| | 6 wythnos ar ôl yr ymweliad ar y safle | |
| | | Y darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn rhoi sylwadau ar y cywirdeb ffeithiol. |
| | 9 wythnos ar ôl yr ymweliad ar y safle | |
| | Cynhyrchir yr adroddiad terfynol.<br><br>Anfonir y beirniadaethau a'r adroddiad at CCAUC. | |
| | 11 wythnos ar ôl yr ymweliad ar y safle | |
| | Cyhoeddir yr adroddiad ar wefan QAA, yn y Gymraeg a'r Saesneg. | |

## Pennod 2: Y rolau a'r cyfrifoldebau allweddol

Mae'r bennod hon yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r chwaraewyr allweddol yn y broses adolygu.

### Yr hwylusydd

Gwahoddir darparwyr i enwebu hwylusydd. Bydd yr hwylusydd yn helpu i drefnu'r Adolygiad Ansawdd Porth, i sicrhau bod y broses yn rhedeg yn esmwyth ac i wella llif yr wybodaeth rhwng y tîm adolygu a'r darparwr. Dylai perthynas waith effeithiol rhwng QAA a'r hwylusydd helpu i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth (er enghraifft, y darparwr yn camddeall yr hyn y mae QAA ei angen, neu QAA yn camddeall natur a chwmpas darpariaeth y darparwr).

I grynhoi, bydd yr hwylusydd yn cyflawni'r rolau allweddol canlynol:

- cysylltu gyda'r Swyddog QAA i drefnu'r Adolygiad Ansawdd Porth
- yn ystod yr ymweliad ar y safle, rhoi cyngor ac arweiniad i'r tîm adolygu am ddulliau a threfniadau'r darparwr
- yn ystod yr ymweliad ar y safle, cwrdd â'r Swyddog QAA a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr (ac efallai hefyd aelodau'r tîm adolygu) y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol i ddarparu neu geisio rhagor o eglurhad am faterion neu gwestiynau penodol.

Mae rhagor o fanylion i'w cael am rôl yr hwylusydd yn Atodiad 6.

### Cyfranogaeth myfyrwyr yn y broses Adolygiad Ansawdd Porth

Mae myfyrwyr yn chwarae rôl hollbwysig mewn prosesau asesu ansawdd darpariaeth addysg uwch. O ystyried eu profiadau academaidd cyfredol, mae myfyrwyr yn rhoi cipolwg gwerthfawr i'r tîm adolygu.

Gall myfyrwyr y darparwr gyfrannu at y broses drwy wneud y canlynol:

- enwebu'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, sy'n cyfranogi drwy gydol y broses Adolygiad Ansawdd Porth
- cyfrannu eu barn drwy gyflwyniad y myfyrwyr sy'n disgrifio eu profiadau academaidd a'u profiadau o brosesau sicrhau ansawdd y darparwr; mae hyn yn dystiolaeth allweddol ar gyfer y dadansoddiad pen desg
- cyfranogi yn ystod yr ymweliad ar y safle, er enghraifft gynghori'r tîm adolygu, drwy'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, am ddulliau a threfniadau'r darparwr yn ystod yr ymweliad
- gweithio mewn partneriaeth â'r darparwr i lunio a gweithredu'r cynllun gweithredu ar ôl yr Adolygiad Ansawdd Porth, os rhoddwyd y feirniadaeth 'anfoddhaol'.

### Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr

Pwrpas y rôl yma yw caniatáu i fyfyrwyr chwarae rhan ganolog drwy gydol y broses Adolygiad Ansawdd Porth.

Bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn helpu i sicrhau cyfathrebu esmwyth rhwng y corff myfyrwyr, y darparwr a QAA, a bydd fel arfer yn goruchwylio'r broses o gynhyrchu cyflwyniad y myfyrwyr. Bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr hefyd yn dethol y myfyrwyr y bydd y tîm adolygu'n cyfarfod â nhw, ar gyngor QAA.

Lle bo'n bosibl, dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr gael ei benodi gan y myfyrwyr eu hunain, gyda chymorth corff cynrychiolwyr myfyrwyr neu gorff cyfatebol o fewn y darparwr. Gallai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fod yn aelod o gorff cynrychiolwyr y myfyrwyr, ond ni chaiff fod yn uwch aelod o'r staff. Byddai trefniant rhannu swydd yn dderbyniol, cyhyd ag y bo'n glir pwy yw'r prif bwynt cyswllt.

Dylai'r darparwr gynnig cymaint o gymorth gweithredol a logistaidd ag sy'n bosibl i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Yn arbennig, dylai darparwyr rannu gwybodaeth neu ddata perthnasol i sicrhau bod sail ddigonol o wybodaeth a thystiolaeth ar gael ar gyfer cyflawniad y myfyrwyr.

I grynhoi, bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn cyflawni'r rolau allweddol canlynol:

- cysylltu gyda'r hwylusydd drwy gydol y broses Adolygiad Ansawdd Porth i sicrhau cyfathrebu esmwyth rhwng y corff myfyrwyr a'r darparwr
- rhoi adborth am y broses Adolygiad Ansawdd Porth a'i chynnydd i'r corff myfyrwyr
- trefnu a goruchwylio'r gwaith o baratoi cyflwyniad y myfyrwyr
- helpu gyda dethol myfyrwyr i gwrdd â'r tîm adolygu
- sicrhau parhad y gweithredu drwy gydol y broses Adolygiad Ansawdd Porth
- hwyluso sylwadau gan y corff myfyrwyr ar adroddiad drafft yr Adolygiad Ansawdd Porth
- gweithio gyda'r darparwr i ddatblygu a gweithredu ei gynllun gweithredu, os rhoddwyd y feirniadaeth 'anfoddhaol'.

Mae rhagor o fanylion i'w cael am rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn Atodiad 7.

## Rôl cyrff dyfarnu graddau a sefydliadau dyfarnu eraill

Bydd y darparwyr yn cysylltu gyda'u cyrff dyfarnu graddau neu eu sefydliadau dyfarnu eraill[12] i benderfynu beth fyddai eu cyfraniad priodol i mewn i'r broses Adolygiad Ansawdd Porth, ac i roi gwybod yn rheolaidd i'w cyrff dyfarnu graddau perthnasol a/neu sefydliadau dyfarnu perthnasol am gynnydd y broses Adolygiad Ansawdd Porth.

Efallai y bydd darparwyr eisiau gofyn i'r cyrff hyn a/neu'r sefydliadau hyn gymryd rhan yn y broses Adolygiad Ansawdd Porth, er enghraifft, drwy helpu i baratoi cyflwyniad y darparwr neu fynd i ymweliadau ar y safle. Bydd hi'n bleser gan y timau adolygu gwrdd â chynrychiolwyr y cyrff dyfarnu graddau neu'r sefydliadau dyfarnu yn ystod ymweliadau ar y safle, a gallent eu hannog i fynd i gyfarfodydd penodol, os yw hynny'n debygol o helpu'r tîm adolygu i ddeall y berthynas.

Bydd gofyn hefyd i'r darparwr sy'n cael ei adolygu gwblhau rhestr wirio o gyfrifoldebau i bob trefniant sy'n bodoli, beth bynnag fo'r math o drefniant, a fydd yn dangos i dîm adolygu QAA sut mae'r cyfrifoldebau'n cael eu dosbarthu (gwelwch Atodiad 4).

## Yr adolygwyr a'r timau adolygu

Fel arfer, bydd pob tîm adolygu QAA yn cynnwys tri adolygwr. Bydd y tîm yn cynnwys adolygwr sy'n fyfyriwr, heblaw bod amgylchiadau eithriadol yn codi.

Dewisir aelodau timau adolygu ar sail eu profiad ym maes addysg uwch a disgwylir iddynt dynnu ar hyn yn eu casgliadau a'u gwerthusiadau am y rheolaeth ar ansawdd a safonau academaidd. Bydd cyfansoddiad pob tîm adolygu hefyd yn rhoi ystyriaeth i wybodaeth a phrofiad yr adolygwyr o ddarparu darpariaeth addysg uwch mewn, neu gyda, mathau o ddarparwyr sy'n debyg i'r darparwr sy'n cael ei adolygu.

Mae gan adolygwyr QAA sy'n gymheiriaid arbenigedd a phrofiad cyfredol neu ddiweddar ar lefel uwch o reoli ac/neu o ddarparu darpariaeth addysg uwch, gan gynnwys o reoli a/neu weinyddu trefniadau sicrhau ansawdd.

[12] Lle bo'n briodol, er enghraifft, efallai y bydd sefyllfaoedd yn codi lle mae darparwr yn gorff dyfarnu ei hun.

Penodir adolygwyr sy'n fyfyrwyr o blith myfyrwyr neu swyddogion sabothol sydd â phrofiad o gyfranogi, fel cynrychiolwyr buddiannau myfyrwyr, yn y broses o gyfrannu at y gwaith o reoli safonau academaidd ac/neu ansawdd[13].

Mae'r garfan o adolygwyr yn adlewyrchu'r amrywiaeth yn y sector yn briodol, gan gynnwys amrywiaeth mewn lleoliadau daearyddol ac ym maint a math y darparwyr, yn ogystal â phobl o gefndiroedd amrywiol. Ar gyfer adolygu darpariaeth addysg drawswladol, bydd y tîm Adolygiad Ansawdd Porth yn cynnwys adolygwr sydd ag arbenigedd ym maes addysg drawswladol, lle bo'n ymarferol.

Mae QAA yn darparu hyfforddiant i aelodau o dimau adolygu. Mae'n rhaid i bob adolygwr, gan gynnwys y rheiny sydd wedi cymryd rhan mewn dulliau adolygu blaenorol, gymryd rhan mewn hyfforddiant cyn iddynt wneud proses Adolygiad Ansawdd Porth. Pwrpas yr hyfforddiant yw sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn deall y canlynol yn llawn:

- nodau ac amcanion y broses Adolygiad Ansawdd Porth
- y trefnau perthnasol
- eu rolau a'u tasgau eu hunain
- Disgwyliadau QAA ohonynt.

Mae QAA hefyd yn darparu cyfleoedd datblygiad parhaus i aelodau o dimau adolygu ac mae'n gweithredu trefnau i reoli perfformiad adolygwyr. Mae'r olaf yn cynnwys barn y darparwyr sydd wedi cael Adolygiad Ansawdd Porth.

Mae rhagor o wybodaeth am adolygwyr, ac am y ffordd y maent yn cael eu penodi, eu hyfforddi a'u rheoli yn Atodiad 8.

## Y Swyddog QAA

Rôl y Swyddog QAA yw tywys y tîm a'r darparwr drwy bob cam o'r broses Adolygiad Ansawdd Porth, gan sicrhau bod gweithdrefnau cymeradwy'n cael eu dilyn. Mae'r Swyddog QAA yn gyfrifol am reoli'r trefniadau ymarferol ar gyfer y rhaglen Adolygiad Ansawdd Porth, gan gynnwys:

- gwneud yr asesiad cychwynnol o'r darparwr
- cysylltu gyda'r darparwr i gadarnhau'r rhaglen ar gyfer yr ymweliad ar y safle
- golygu'r adroddiad Adolygiad Ansawdd Porth.

Bydd y Swyddog QAA yn mynd i'r cyfarfod terfynol gyda'r darparwr a'r cyfarfod barnu preifat ar ddiwedd yr ymweliad ar y safle i gynghori ac arwain ystyriaethau'r tîm adolygu. Mae hyn yn sicrhau bod y beirniadaethau a'r casgliad cyffredinol yn cael eu seilio'n gadarn ar y dystiolaeth sydd ar gael, a bod yr holl Adolygiadau Ansawdd Porth yn cael eu gweithredu'n gyson.

## Y Rheolwr Sicrhau Ansawdd QAA

Y Rheolwr Sicrhau Ansawdd yw'r gweithiwr uwch yn QAA sy'n gyfrifol am y rhaglen Adolygiad Ansawdd Porth. Byddent yn goruchwylio gweithrediad y rhaglen o adolygiadau ac yn rheoli'r broses safoni.

---

[13] Gall adolygwyr sy'n fyfyrwyr weithredu yn y rôl hon am hyd at ddwy flynedd ar ôl graddio. Ni ellir ystyried myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyfer y rôl yma.

# Pennod 3: Paratoi ar gyfer yr ymweliad ar y safle

Mae'r rhan hon o'r llawlyfr yn esbonio'r gweithgareddau y mae angen eu gwneud i baratoi ar gyfer yr ymweliad ar y safle.

Bydd QAA yn cytuno ar amserlen yr ymweliadau gyda'r darparwr. Hysbysir CCAUC am ddyddiadau'r adolygiad. Ni all y broses ffurfiol gychwyn nes bydd y darparwr wedi hysbysu QAA am ei fwriad i gael Adolygiad Ansawdd Porth.

Wrth gynllunio, gweithredu a darparu adroddiad am adolygiadau yng Nghymru, mae QAA wedi'i hymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac i roi ystyriaeth i ofynion a disgwyliadau'r Safonau Iaith Gymraeg. I gael rhagor o wybodaeth, gwelwch Atodiad 3.

## Trosolwg o amserlen y gweithgareddau cyn yr ymweliad ar y safle

Mae amserlenni safonol i'w gweld isod. (Mae'r amserlen ar gyfer y cyfnod ar ôl yr ymweliad ar y safle wedi'i nodi ym Mhennod 5). Nodwch os gwelwch yn dda, efallai y bydd sefyllfaoedd anochel yn codi lle mae angen i weithgareddau ddigwydd dros gyfnod byrrach neu hirach o amser. Hefyd, mae modd addasu'r dyddiadau cwblhau yn yr amserlen yma i ystyried gwyliau Nadolig, gwyliau Pasg, ac unrhyw wyliau cyhoeddus yn y DU a dyddiadau pan fydd QAA wedi cau. Bydd y Swyddog QAA yn cadarnhau'r union ddyddiadau mewn ysgrifen.

**Tabl 3: Amserlen y gweithgareddau cyn yr ymweliad ar y safle**

| Wythnosau gwaith | Gweithgareddau | Manylion |
|---|---|---|
| O leiaf 15 wythnos cynt | Y cysylltiad cyntaf ar gyfer gweithredu'r broses Adolygiad Ansawdd Porth | Bydd QAA yn ysgrifennu at y darparwr i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer y broses Adolygiad Ansawdd Porth, gan gynnwys yr iaith/ieithoedd (y Saesneg a/neu'r Gymraeg) a ddewiswyd. Disgwylir i'r darparwyr gadarnhau pwy yw'r hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. |
| O leiaf 11 wythnos cynt | Yr asesiad cychwynnol o'r darparwr | I bob darparwr unigol, bydd QAA yn pennu'r dull mwyaf priodol o wneud Adolygiad Ansawdd Porth, gan gynnwys y dull o gynnal y sesiwn briffio i'r darparwr. |
| | Sesiynau briffio i ddarparwyr | Bydd QAA yn trefnu sesiwn briffio i'r darparwr sydd fel arfer yn sesiwn rhithwir, ond bydd yn sesiwn wyneb yn wyneb gyda rhai darparwyr. |
| | Cadarnhau dyddiadau'r ymweliad ar y safle, a chyfansoddiad y tîm adolygu | Bydd QAA yn ysgrifennu at y darparwr i gadarnhau hyd yr ymweliad ar y safle, cyfansoddiad y tîm adolygu, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cyflwyniad y darparwr, y dystiolaeth ategol a chyflwyniad y myfyrwyr. |
| 7 wythnos cyn yr ymweliad ar y safle | Cyflwyniad y darparwr | Bydd y darparwr yn llwytho cyflwyniadau'r darparwr a'r myfyrwyr, a'r dystiolaeth ategol.<br>Bydd y cyflwyniadau'n dangos a yw'r darparwr yn gallu bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol. |
| 4 wythnos cyn yr ymweliad ar y safle | Dadansoddiad pen desg | Bydd yr adolygwyr, drwy broses pen desg, yn dadansoddi'r cyflwyniadau a'r dystiolaeth ategol, ac yn pennu:<br>• y prif feysydd i'w hegluro/gwirio yn ystod yr ymweliad ar y safle, a fydd yn hysbysu rhaglen yr ymweliad<br>• y cwestiynau cyn-ymweliad y dylai'r darparwr ymateb iddynt gyda datganiad a/neu dystiolaeth ategol erbyn dechrau'r ymweliad ar y safle. |

| Wythnosau gwaith | Gweithgareddau | Manylion |
|---|---|---|
| 2 wythnos cyn yr ymweliad ar y safle | Rhith-gyfarfod y tîm | Bydd y tîm adolygu'n cynnal ei rith-gyfarfod i drafod casgliadau'r dadansoddiad pen desg, i gadarnhau'r agendâu ac i wneud y trefniadau ymarferol terfynol er mwyn paratoi ar gyfer yr ymweliad.<br><br>Bydd y Swyddog QAA yn cadarnhau rhaglen yr ymweliad gyda'r darparwr a'r cwestiynau cyn-ymweliad y dylai'r darparwr ymateb iddynt erbyn bore'r ymweliad ar y safle. |

## Y cysylltiad cyntaf gyda QAA

Unwaith y bydd y darparwr wedi mynegi ei fwriad i gomisiynu Adolygiad Ansawdd Porth, bydd QAA yn hysbysu'r darparwr am amserlen y broses Adolygiad Ansawdd Porth. Ar y cam yma, bydd QAA hefyd yn gofyn i'r darparwr enwebu ei hwylusydd a'i Brif Gynrychiolydd Myfyrwyr, a chadarnhau ei ddewis iaith/ieithoedd (y Saesneg a/neu'r Gymraeg) ar gyfer yr adolygiad.

Bydd QAA yn cadarnhau dyddiad yr Adolygiad Ansawdd Porth, y trefniadau ymarferol a'r dyddiadau cwblhau perthnasol.

Pan fydd y darparwr yn gwybod dyddiad yr ymweliad ar y safle, bydd QAA yn disgwyl i'r darparwr rannu'r wybodaeth hon gyda'i fyfyrwyr ac esbonio iddynt sut y gallent gyfranogi yn y broses.

Bydd QAA hefyd yn cadarnhau enw'r Swyddog QAA a fydd yn cydlynu'r broses Adolygiad Ansawdd Porth, ac enw'r swyddog gweinyddol ym mhencadlys QAA a fydd yn cefnogi'r broses. Mae croeso i ddarparwyr ffonio neu anfon e-bost at eu Swyddog QAA, os oes ganddynt unrhyw gwestiynau. Gall y Swyddog QAA ddarparu cyngor ar y broses, ond ni all weithredu fel ymgynghorydd ar gyfer y gwaith paratoi, na dweud a yw'r prosesau sydd gan y darparwr ar gyfer sicrhau ansawdd yn briodol neu'n addas i'r pwrpas.

## Yr asesiad cychwynnol o'r darparwr

Bydd cam cyntaf yr Adolygiad Ansawdd Porth yn asesiad pen desg cychwynnol o'r darparwr, a wneir gan QAA i bennu'r dull o wneud Adolygiad Ansawdd Porth sy'n fwyaf priodol i bob darparwr. Mae'r asesiad cychwynnol o'r darparwr yn debygol o gynnwys dadansoddi gwybodaeth o wahanol ffynonellau, gan gynnwys:

- gwefan y darparwr
- yr adroddiadau adolygu QAA mwyaf diweddar am y darparwr, ac am y sefydliadau y mae'n darparu cyfleoedd dysgu â nhw, lle bo'n berthnasol
- yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRB) am y darparwr, ac am y sefydliadau y mae'n darparu cyfleoedd dysgu â nhw
- yr adroddiadau mwyaf diweddar gan gyrff asesu ansawdd eraill, gan gynnwys sefydliadau rhyngwladol, lle bo'n berthnasol, am y darparwr, ac/neu am y sefydliadau y mae'n darparu cyfleoedd dysgu â nhw
- yr adroddiadau arolygu mwyaf diweddar gan Estyn neu Ofsted, neu unrhyw adroddiadau cyfatebol, am y darparwr, ac am y sefydliadau y mae'n darparu cyfleoedd dysgu â nhw, lle bo'n berthnasol
- data cyd-destunol am y darparwr sy'n dangos siâp, maint a phroffil ei ddarpariaeth, ar sail data gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.

I ddarparwyr sydd â darpariaeth drawswladol, gallai'r broses adolygu gynnwys cydweithrediad â'r asiantaeth sicrhau ansawdd yn y wlad honno, gan gynnwys, pan fo'n briodol, gyfeiriad at adolygiadau'r asiantaeth honno.

Bydd y dadansoddiad yn penderfynu:

- a oes angen sesiwn briffio wyneb yn wyneb i'r darparwr (gwelwch drosodd)
- hyd yr ymweliad ar y safle.

Hysbysir y darparwr mewn ysgrifen am ganlyniad yr asesiad cychwynnol o'r darparwr. Bydd y canlyniad hwn yn cynrychioli'r casgliad rhesymol y gall QAA ddod iddi ar sail yr wybodaeth sydd ar gael iddynt. Bydd y sesiwn briffio'n rhoi'r cyfle i'r darparwr ychwanegu rhagor o fanylion am unrhyw faterion penodol a allai effeithio ar gymhlethdod ei ddarpariaeth.

## Sesiynau briffio QAA i ddarparwyr

Bydd pob darparwr yn derbyn sesiwn briffio cyn yr ymweliad ar ei safle. Os gofynnir am hynny, bydd modd darparu'r sesiwn briffio yn y Saesneg gyda chyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg.

Yn ystod y sesiwn briffio, bydd QAA yn trafod trefn y broses Adolygiad Ansawdd Porth gyfan.

Bydd y sesiwn briffio'n cynnwys trafodaeth am gyflwyniad y darparwr a'r dystiolaeth ategol. Mae rhagor o wybodaeth am strwythur a chynnwys cyflwyniad y darparwr yn Atodiad 2.

Bydd y sesiwn briffio hefyd yn gyfle pwysig i QAA gysylltu â'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ynglŷn â chyflwyniad y myfyrwyr, a'r ffordd y bydd myfyrwyr yn cael eu dewis i gwrdd â'r tîm. Cyfrifoldeb y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fydd dethol myfyrwyr, ond gallai ef/hi ddewis cydweithio gyda'r hwylusydd, neu gyda chydweithwyr eraill o blith y myfyrwyr os bydd yn dymuno gwneud hynny. Mae rhagor o arweiniad am rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn Atodiad 7.

Bydd y mwyafrif o ddarparwyr yn derbyn sesiynau rhithwir unigol (ar y ffôn neu drwy fideo-gynadledda) gyda'u Swyddog QAA dynodedig.

Gyda rhai darparwyr, efallai y bydd QAA yn penderfynu ei bod hi'n fwy priodol cynnal sesiwn briffio wyneb yn wyneb. Bydd QAA yn rhoi gwybodaeth bellach i bob darparwr ynglŷn â phwy ddylai gyfranogi yn y cyfarfod. Dyma rai o'r sefyllfaoedd lle gallai hyn ddigwydd:

- os na chafodd y darparwr adolygiad gan QAA o'r blaen, neu os yw ei brofiad o adolygiad gan QAA yn gyfyngedig, neu os ydyw wedi cael adolygiadau aflwyddiannus gan QAA yn y gorffennol (p'un a chafwyd beirniadaethau a adolygwyd ai peidio)
- os yw'r ddarpariaeth yn gymhleth neu os cafwyd newidiadau sylweddol, gan gynnwys uniadau diweddar.

Bydd y sesiynau briffio (p'un a ydynt yn sesiynau wyneb yn wyneb neu ar y ffôn/rhithwir) yn rhoi cyfle i'r darparwyr ofyn unrhyw gwestiynau sydd heb eu gofyn am y broses Adolygiad Ansawdd Porth, i ganolbwyntio ar gwestiynau sy'n benodol berthnasol iddynt, ac i drafod canlyniad yr asesiad cychwynnol o'r darparwr. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i'r darparwr siarad yn uniongyrchol â'u Swyddog QAA dynodedig sy'n rheoli'r broses Adolygiad Ansawdd Porth.

Ar ôl y sesiynau briffio, bydd y Swyddog QAA ar gael, ar yr e-bost a'r ffôn, i helpu i egluro'r broses ymhellach gyda naill ai'r hwylusydd neu'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr.

## Hyd yr ymweliad ar y safle a chyfansoddiad y tîm adolygu

Yn dilyn y sesiynau briffio, bydd QAA yn ysgrifennu at y darparwr i gadarnhau hyd yr ymweliad ar y safle a chyfansoddiad y tîm adolygu.

Bydd QAA yn rhoi gwybodaeth i'r darparwr am aelodau'r tîm adolygu ac yn gofyn i'r darparwr roi gwybod am unrhyw wrthdaro buddiannau posibl rhwng aelodau'r tîm adolygu a sefydliad y darparwr, a gallai wneud newidiadau yng nghyd-destun hynny.

## Cyflwyniad y darparwr a'r dystiolaeth ategol

Mae tair prif swyddogaeth gan gyflwyniad y darparwr a'r dystiolaeth ategol, y dylid ei theilwra i gyfateb â natur y darparwr a'i ddarpariaeth addysg uwch. Dyma'r tair prif swyddogaeth:

- rhoi trosolwg o'r sefydliad i'r tîm adolygu, yn cynnwys ei ddulliau o reoli ansawdd a safonau, a manylion am unrhyw berthynas gyda chyrff dyfarnu graddau neu sefydliadau dyfarnu, ac am unrhyw bwyntiau cyfeirio allanol eraill (er enghraifft, gofynion cyrff PSRB, heblaw'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol) y mae gofyn i'r darparwr eu hystyried
- rhoi disgrifiad i'r tîm adolygu o ddulliau'r darparwr o sicrhau safonau academaidd ac ansawdd y ddarpariaeth honno
- rhoi esboniad i'r tîm adolygu ynglŷn â sut mae'r darparwr yn gwybod bod ei ddulliau'n effeithiol i gyflawni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol (a phwyntiau cyfeirio allanol eraill, lle bo'n berthnasol), a sut y gallent gael eu gwella ymhellach.

Mae modd cynhyrchu cyflwyniad y darparwr yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

I gael gwybodaeth am gynnwys cyflwyniad y darparwr a'r defnydd a wneir ohono, gwelwch Atodiad 2.

## Cyflwyniad y myfyrwyr

Pwrpas cyflwyniad y myfyrwyr yw helpu'r tîm adolygu i ddeall y profiad o fod yn fyfyriwr gyda'r darparwr dan sylw, a sut mae barn y myfyrwyr yn derbyn ystyriaeth ym mhrosesau'r darparwr ar gyfer gwneud penderfyniadau a sicrhau ansawdd. Felly, mae cyflwyniad y myfyrwyr yn ddarn hynod bwysig o dystiolaeth.

Mae modd cynhyrchu cyflwyniad y myfyrwyr yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

I gael gwybodaeth am gynnwys cyflwyniad y myfyrwyr a'r defnydd a wneir ohono, gwelwch Atodiad 7.

## Llwytho cyflwyniad y darparwr a chyflwyniad y myfyrwyr (saith wythnos cyn yr ymweliad ar y safle)

Bydd angen i'r darparwr lwytho cyflwyniad y darparwr (a chyflwyniad y myfyrwyr, lle bo'n berthnasol), a'r dystiolaeth ategol, saith wythnos cyn yr ymweliad ar y safle. Bydd yr union ddyddiad ar gyfer gwneud hyn wedi'i gadarnhau gan QAA yn ystod y sesiwn briffio ac/neu mewn gohebiaeth.

Mae gwybodaeth ar gael yn Atodiad 2 am y broses o lwytho cyflwyniad y darparwr a'r dystiolaeth ategol i wefan electronig QAA.

## Defnyddio data yn y broses Adolygiad Ansawdd Porth

Bydd y tîm adolygu'n defnyddio metrigau allweddol a ddarperir gan CCAUC drwy gydol y broses Adolygiad Ansawdd Porth. Rhennir y gyfres ddata hon gyda'r darparwr i ategu trafodaethau yn ystod yr Adolygiad Ansawdd Porth.

Dylai darparwyr sydd heb ddigon o ddata o'r fath gynnwys eu data eu hunain yn y cyflwyniad, sy'n ymwneud â chofrestriad, cadwraeth, cynnydd a chyflawniad eu myfyrwyr, mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysg uwch sy'n cael ei hadolygu. Byddai'n ddefnyddiol darparu data o'r fath ar gyfer cyfnod o dair i bum mlynedd er mwyn dangos tueddiadau dros amser. Mae QAA yn annog darparwyr i ystyried eu cyflawniadau a'u gwendidau yn erbyn cyfresi data perthnasol sydd wedi'u meincnodi'n genedlaethol neu'n rhyngwladol. Lle mae cyfresi data o'r fath yn bodoli, dylai cyflwyniad y darparwr eu hystyried ac adrodd mewn perthynas â nhw, gan roi'r canlyniadau yn eu cyd-destun.

## Pryderon sydd gan CCAUC am ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch

Os oes gan CCAUC bryderon penodol am ansawdd darpariaeth addysg uwch y darparwr ac mae eisiau eu harchwilio, bydd CCAUC yn tynnu sylw QAA at y pryderon hynny.

## Y dadansoddiad pen desg gan y tîm adolygu (pedair wythnos cyn yr ymweliad ar y safle)

Bydd y tîm adolygu'n cychwyn ei ddadansoddiad pen desg o'r holl wybodaeth gynted ag y bydd cyflwyniad y darparwr a chyflwyniad y myfyrwyr wedi'u llwytho ac y bydd unrhyw destunau Cymraeg wedi'u cyfieithu i'r Saesneg, os bydd raid. Pwrpas y dadansoddiad pen desg yw galluogi'r adolygwyr i:

- benderfynu pa feysydd sydd wedi cael digon o sylw yng nghyflwyniad y darparwr a pha feysydd sydd angen eu hegluro/gwirio ymhellach yn ystod yr ymweliad ar y safle
- benderfynu pa dystiolaeth ychwanegol sydd angen ei darparu erbyn dechrau'r ymweliad ar y safle
- ddatblygu cwestiynau ar gyfer yr ymweliad ar y safle
- benderfynu pwy (rolau) y dylid cyfarfod â nhw yn ystod yr ymweliad.

I wneud y dadansoddiad, bydd yr adolygwyr yn:

- gwerthuso tystiolaeth sy'n ymwneud â darpariaeth y darparwr yn erbyn y gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol
- dadansoddi data sy'n ymwneud â chanlyniadau, cyfraddau cwblhau a boddhad myfyrwyr y darparwr lle bo ar gael, a gwybodaeth am bolisïau ac arferion y darparwr
- ystyried adroddiadau gan asiantaethau tramor am ddarpariaeth addysg drawswladol lle bo'n berthnasol
- casglu barn y myfyrwyr drwy eu cyflwyniad.

Os bydd y tîm yn canfod unrhyw fylchau yn yr wybodaeth neu os byddent angen rhagor o dystiolaeth am y materion y maent yn eu harchwilio, byddent yn rhoi gwybod i'r Swyddog QAA

## Rhith-gyfarfod y tîm adolygu (pythefnos cyn yr ymweliad ar y safle)

Pythefnos cyn yr ymweliad ar y safle, bydd y tîm yn cynnal ei rith-gyfarfod er mwyn paratoi ar gyfer yr ymweliad. Mae hwn yn para hanner diwrnod ac nid yw'n cynnwys y darparwr. Dyma ddiweddglo'r dadansoddiad pen desg ac mae'n rhoi cyfle i'r tîm adolygu:

- drafod ei waith o ddadansoddi'r dystiolaeth ddogfennol
- benderfynu pa feysydd sydd wedi cael digon o sylw
- gadarnhau pa faterion i'w harchwilio ymhellach yn ystod yr ymweliad ar y safle
- benderfynu ar raglen yr ymweliad a phwy y dylid cyfarfod â nhw.

Bydd y Swyddog QAA yn cadarnhau rhaglen yr ymweliad gyda'r darparwr. Bydd y Swyddog QAA hefyd yn anfon 'cwestiynau cyn-ymweliad' ato i ofyn am wybodaeth ychwanegol, gan roi cyfle i'r darparwr ymateb gyda datganiad a/neu dystiolaeth ategol. Dylai ddarparu'r wybodaeth hon erbyn dechrau'r ymweliad ar y safle. Bydd unrhyw geisiadau am wybodaeth ychwanegol wedi'u cyfyngu'n dynn i'r hyn y mae'r tîm ei angen ar gyfer cwblhau ei waith craffu, ac mae hawl gan y darparwr ofyn am eglurhad o bwrpas unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani er mwyn iddo allu darparu'r darnau mwyaf perthnasol o wybodaeth.

## Pennod 4: Yr ymweliad ar y safle (wythnos 0)

Bydd y rhan fwyaf o'r ymweliadau ar y safle'n digwydd dros gyfnod o ddau ddiwrnod. Mewn rhai achosion, gallai'r ymweliad ar y safle bara am dri diwrnod. Yn ystod yr asesiad cychwynnol o'r darparwr, bydd QAA yn penderfynu a ddylid teilwra hyd yr ymweliad adolygu a bydd yn gwneud hynny ar sail maint a chymhlethdod darpariaeth y darparwr.

Ni fydd y camau gweithredu a geir yn ystod yr ymweliad ar y safle yr un fath ar gyfer pob darparwr, ond bydd y tîm adolygu'n sicrhau bod rhaglen yr ymweliad bob amser yn cynnwys cyfarfodydd gyda:

- staff uwch, gan gynnwys pennaeth y darparwr
- staff academaidd a staff cymorth proffesiynol
- grŵp cynrychiadol o'r myfyrwyr, fel bod y tîm adolygu'n gallu derbyn gwybodaeth yn bersonol am brofiad y myfyrwyr fel dysgwyr ac am eu hymwneud â phrosesau'r darparwr ar gyfer sicrhau ansawdd.

Bydd y tîm adolygu'n hapus i ddefnyddio cyfleusterau fideo neu delegynadledda i gwrdd â phobl a fydd efallai'n ei chael hi'n anodd dod i safle'r darparwr, megis myfyrwyr dysgu o bell, myfyrwyr sy'n astudio tu allan i'r DU, neu gyn-fyfyrwyr.

Bydd y tîm adolygu'n defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, pan fydd angen.

Er na fydd yr hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn bresennol yng nghyfarfodydd preifat y tîm adolygu, bydd cyfleoedd i'r tîm gadw cysylltiad rheolaidd â'r hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, ar ddechrau a/neu ddiwedd y diwrnod, neu pan gânt eu gwahodd i egluro tystiolaeth neu i ddarparu gwybodaeth. Dylai'r hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr awgrymu cyfarfodydd anffurfiol hefyd os ydynt eisiau tynnu sylw'r tîm at wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol.

Cyn y cyfarfod barnu preifat, bydd y tîm yn cynnal cyfarfod terfynol gydag aelodau detholedig o'r staff a'r myfyrwyr, a'r hwylusydd neu'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i geisio eglurhad terfynol i helpu'r tîm i gael canfyddiadau cadarn. Bydd y cyfarfod hwn hefyd yn gyfle i'r tîm gadarnhau ei ddealltwriaeth o fanylion y materion dan sylw, ac i'r darparwr gyflwyno unrhyw dystiolaeth bellach nad oedd ar gael i'r tîm ynghynt efallai.

Yn ystod yr ymweliad ar y safle, dim ond y cyfarfod terfynol hwn gyda'r darparwr y bydd y Swyddog QAA yn ei fynychu, a bydd yn hwyluso cyfarfod barnu preifat y tîm adolygu.

Ar ddiwedd yr ymweliad, bydd y tîm adolygu'n cyfarfod â'r Swyddog QAA i gadarnhau'r beirniadaethau dros dro, unrhyw feysydd sydd angen eu datblygu a/neu unrhyw welliannau sydd wedi'u pennu i'r darparwr. Bydd y cyfarfod hwn yn breifat. Ni hysbysir y darparwr am y beirniadaethau dros dro ar unwaith.

Bydd y Swyddog QAA yn cadeirio'r cyfarfod barnu hwn ac yn profi'r sail tystiolaeth ar gyfer canfyddiadau'r tîm. Mae'r beirniadaethau'n cynrychioli'r casgliadau rhesymol y gall tîm adolygu ddod iddynt ar sail y dystiolaeth a'r amser sydd ar gael iddynt.

Bydd y tîm adolygu'n gwneud beirniadaethau am y canlynol:

- dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir mewn darparwyr eraill yn y DU
- ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r myfyrwyr.

Yn Atodiad 5, mae'r meini prawf y bydd timau adolygu'n eu defnyddio i wneud eu beirniadaethau.

# Pennod 5: Ar ôl yr ymweliad ar y safle

Mae'r rhan hon o'r llawlyfr yn disgrifio'r hyn a fydd yn digwydd wedi i'r ymweliad ar y safle ddod i ben.

## Amserlen y gweithgareddau ar ôl yr ymweliad ar y safle

Mae'r rhan hon o'r llawlyfr yn disgrifio'r hyn a fydd yn digwydd wedi i'r ymweliad ar y safle ddod i ben ac y mae'r canlyniad yn llwyddiannus; mae hyn yn golygu bod pob un o'r ddwy feirniadaeth, am y safonau academaidd ac am brofiad y myfyrwyr, yn mynegi 'hyder'. Mae'r adran isod yn ymdrin â'r broses a weithredir ar gyfer beirniadaethau 'anfoddhaol', yn cynnwys gwybodaeth am y broses os bydd unrhyw un o'r beirniadaethau'n anfoddhaol.

Nodwch os gwelwch yn dda bod modd addasu'r dyddiadau cwblhau i ystyried gwyliau Nadolig, gwyliau Pasg, ac unrhyw wyliau cyhoeddus yn y DU a dyddiadau pan fydd QAA wedi cau. Bydd y Swyddog QAA yn cadarnhau'r union ddyddiadau mewn ysgrifen.

**Tabl 4: Amserlen y gweithgareddau ar ôl yr ymweliad ar y safle**

| Wythnosau gwaith | Gweithgareddau |
|---|---|
| Wythnos +1 | Safoni'r canfyddiadau. |
| Wythnos +3 | Anfonir yr adroddiad drafft at y darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i dderbyn sylwadau ar ei gywirdeb ffeithiol. Anfonir copi o'r adroddiad drafft at gyrff dyfarnu graddau partner neu sefydliadau dyfarnu partner sy'n berthnasol.<br><br>Anfonir y beirniadaethau dros dro at CCAUC. |
| Wythnos +6 | Y darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn rhoi sylwadau ar y cywirdeb ffeithiol (gan gynnwys unrhyw sylwadau gan gyrff neu sefydliadau dyfarnu) i QAA. |
| Wythnos +9 | Y Swyddog QAA yn ystyried y cywiriadau ac yn cynhyrchu'r adroddiad terfynol.<br><br>Anfonir y beirniadaethau a gadarnhawyd a'r adroddiad terfynol at CCAUC. |
| Wythnos +11 | Cyhoeddir adroddiad yr Adolygiad Ansawdd Porth ar wefan QAA, yn y Gymraeg a'r Saesneg. |

## Yr adroddiad Adolygiad Ansawdd Porth

Penderfynir canfyddiadau'r Adolygiad Ansawdd Porth (beirniadaethau, meysydd sydd angen eu datblygu a gwelliannau penodol) gan y tîm adolygu fel adolygwyr sy'n gymheiriaid. Bydd y Swyddog QAA yn sicrhau bod y canfyddiadau wedi'u hategu gan ddigon o dystiolaeth briodol ac adnabyddadwy, a bod yr adroddiad Adolygiad Ansawdd Porth yn darparu gwybodaeth mewn ffurf gryno a hawdd ei chyrraedd.

Fel arfer, bydd adroddiadau Adolygiad Ansawdd Porth yn hirach na 10 tudalen, a byddent yn cynnwys canfyddiadau, beirniadaethau, meysydd sydd angen eu datblygu a gwelliannau penodol.

Bydd QAA yn cadw'r cyfrifoldeb golygyddol am yr adroddiad terfynol ac yn safoni'r canfyddiadau i sicrhau cysondeb. Gwneir y broses safoni gan Reolwr Sicrhau Ansawdd QAA a Swyddogion QAA i sicrhau bod y beirniadaethau'n gyson mewn amrediad o ddarparwyr, a bod meysydd sydd angen eu datblygu a gwelliannau penodol yn gymesur.

Tair wythnos ar ôl i'r ymweliad ar y safle ddod i ben, bydd y darparwr yn derbyn yr adroddiad drafft wedi'i safoni. Anfonir copi ohono at ei gyrff dyfarnu graddau neu ei sefydliadau dyfarnu eraill, fel sy'n berthnasol. Bydd QAA yn anfon copi o'r adroddiad drafft at y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr gan ei (g)wahodd i roi sylwadau. Ar yr un pryd, hysbysir CCAUC am y canlyniadau dros dro.

Dylai'r darparwr ymateb o fewn tair wythnos, gan roi gwybod i QAA am unrhyw gamgymeriadau ffeithiol neu gamddehongli sydd yn yr adroddiad, gan gynnwys unrhyw sylwadau gan y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Rhaid i'r camgymeriadau hyn fod yn gysylltiedig â'r cyfnod cyn neu yn ystod yr ymweliad ar y safle; ni fydd y tîm adolygu'n diwygio'r adroddiad i adlewyrchu unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau a wneir gan y darparwr ar ôl i'r ymweliad ar y safle ddod i ben.

Bydd y Swyddog QAA yn cwblhau'r adroddiad ac yn ei anfon at CCAUC. Bydd yr adroddiad hwn yn ffurfio rhan o'r sail tystiolaeth y bydd CCAUC yn ei defnyddio i hysbysu ei benderfyniad am statws y darparwr.

Cyhoeddir yr adroddiad Adolygiad Ansawdd Porth yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wefan QAA.

## Y broses ar gyfer beirniadaethau 'anfoddhaol'

Ystyrir y beirniadaethau o 'hyder cyfyngedig' a 'dim hyder' yn anfoddhaol. Pan fydd yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi (sef y fersiwn a gynhyrchir gan ystyried sylwadau'r darparwr ar yr adroddiad drafft) yn cynnwys o leiaf un feirniadaeth sy'n anfoddhaol, ni fydd QAA yn anfon yr adroddiad hwnnw i CCAUC.

Yn hytrach, bydd QAA yn anfon yr adroddiad yn ôl i'r darparwr i'w alluogi yntau i benderfynu a ddylai apelio yn erbyn y beirniadaethau ai peidio.

Mae gan QAA brosesau ffurfiol ar gyfer derbyn cwynion ac apeliadau. Mae Atodiad 10 yn cynnwys manylion y prosesau hyn.

**Tabl 5: Yr amserlen ar gyfer darparwyr sy'n derbyn canlyniad aflwyddiannus**

| Wythnosau gwaith ar ôl yr ymweliad ar y safle[14] | Canlyniad aflwyddiannus (dîm apêl) | Canlyniad aflwyddiannus (apêl) |
|---|---|---|
| Wythnos +1 | Safoni'r canfyddiadau. | |
| Wythnos +3 | Anfonir yr adroddiad drafft at y darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i dderbyn sylwadau ar ei gywirdeb ffeithiol. Anfonir copi o'r adroddiad drafft at gyrff dyfarnu graddau partner neu sefydliadau dyfarnu partner sy'n berthnasol.<br><br>Hysbysir y Tîm Llywodraethu a CCAUC am unrhyw ganlyniadau aflwyddiannus.<br><br>Anfonir y beirniadaethau dros dro at CCAUC. | |
| Wythnos +6 | Y darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn rhoi sylwadau ar y cywirdeb ffeithiol (gan gynnwys unrhyw sylwadau gan gyrff neu sefydliadau dyfarnu) i QAA. | |
| Wythnos +9 | Y tîm adolygu'n ystyried y cywiriadau ac yn cynhyrchu'r adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi. | |
| Wythnos +11 | Anfonir yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi ymlaen at y darparwr.<br><br>Yn dibynnu ar natur a maint y sylwadau a dderbynnir, gallai QAA ddewis anfon gohebiaeth ychwanegol sy'n esbonio'r rheswm/rhesymau am dderbyn/gwrthod sylwadau'r darparwr. | |
| Wythnos +12<br><br>**Wythnos 0** | Y darparwr yn rhoi gwybod am ei fwriad i beidio apelio. | Y darparwr yn rhoi gwybod am ei fwriad i beidio apelio. Ni fydd unrhyw beth sydd heb ei nodi yn y fersiwn drafft cyntaf yn dderbyniol mewn apêl yn erbyn yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi.<br><br>QAA yn hysbysu CCAUC am yr apêl, ac yn cychwyn y broses apelio. |
| Wythnos +13<br><br>**Wythnos +1** | Ni dderbynnir apêl.<br><br>QAA yn anfon yr adroddiad terfynol at CCAUC. | Y darparwr yn cyflwyno'r ddogfen apelio a'r dystiolaeth ategol.<br><br>Cadarnheir enw adolygwr yr apêl. |
| Wythnos +15<br><br>**Wythnos +3** | | Adolygwr yr apêl yn penderfynu a ddylid gwrthod yr achos neu ei gyfeirio at y panel apêl i gael ei ystyried. |
| Wythnos +17<br><br>**Wythnos +5** | | Hysbysir y darparwr am ganlyniad y gwaith sgrinio cychwynnol.<br><br>Y tîm adolygu'n cyflwyno eu sylwadau am yr apêl. |
| Wythnos +18<br><br>**Wythnos +6** | | Y panel apêl yn ystyried yr holl dystiolaeth, gan gynnwys cyflwyniad y tîm adolygu, ac yn gwneud penderfyniad ar y cyd. |
| Wythnos +20<br><br>**Wythnos +8** | | QAA yn rhoi adroddiad am ganlyniad yr apêl i'r darparwr.<br><br>QAA yn hysbysu CCAUC am ganlyniad yr apêl.<br><br>Anfonir yr adroddiad at CCAUC.<br><br>CCAUC yn ystyried canlyniad yr apêl. |

[14] Mae'r ffigurau sydd wedi'u hargraffu mewn print **trwm** yn nodi'r wythnosau yn y broses apelio. Mae'r ffigurau eraill yn nodi'r wythnosau yn y broses Adolygiad Ansawdd Porth.

## Y cynllun gweithredu a'r camau dilyniant

Yn dilyn yr Adolygiad Ansawdd Porth, pan fydd y darparwr wedi derbyn y feirniadaeth o 'hyder cyfyngedig' neu 'ddim hyder' mewn un neu ymhob un o'r ddau faes beirniadaeth, bydd gofyn i'r darparwr ddatblygu cynllun gweithredu sy'n ymdrin â'r meysydd sydd angen eu datblygu a'r gwelliannau penodol a nodwyd. Dylai'r cynllun gweithredu hwn gael ei gynhyrchu mewn partneriaeth â'r corff myfyrwyr, a'i lofnodi gan bennaeth y darparwr.

Bydd QAA yn cefnogi'r darparwyr sydd wedi derbyn y feirniadaeth 'hyder cyfyngedig' neu 'ddim hyder', sy'n gofyn iddynt gwblhau cynllun gweithredu, drwy fonitro eu datblygiad o fewn yr amseriadau y cytunwyd arnynt, a chadarnhau bod y camau gweithredu a gymerwyd wedi cael effaith bositif. Ar ôl blwyddyn, bydd cyfle i'r darparwr gael adolygu'r beirniadaethau amdano. Bydd QAA yn gweithio gyda'r darparwr i benderfynu faint o fanylder ddylai fod yn y camau dilyniant er mwyn ceisio gwella'r beirniadaethau. Os bydd y beirniadaethau'n cael eu newid i 'hyder', ystyrir bod yr adolygiad yn 'llwyddiannus'.

Ar ôl cyfnod o bedair blynedd, gallai darparwyr ddewis gwneud cais i gael Adolygiad Ansawdd Porth arall. Bydd yr adolygiad hwnnw'n ail brofi yn erbyn agweddau'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol sy'n ymwneud ag ansawdd a safonau, a bydd hwn yn gyfle i ddarparwyr ddangos bod eu safonau academaidd yn ddiogel, a'u bod yn gallu darparu profiad academaidd o safon uchel gyson i'w myfyrwyr, a'u bod yn galluogi eu myfyrwyr i gael canlyniadau da.

Mae rhagor o wybodaeth ar wefan CCAUC am y ffordd y byddent yn defnyddio canlyniadau'r Adolygiad Ansawdd Porth hwn wrth ystyried cais am ddynodiad penodol yng Nghymru neu Gynllun Mynediad a Ffioedd.

Mae rhagor o arweiniad ar sut i lunio cynllun gweithredu yn Atodiad 9.

## Atodiad 1: Diffiniadau o dermau allweddol

Mae **ansawdd academaidd** yn ymwneud â pha mor dda mae'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr yn eu galluogi i gyflawni eu dyfarniad. Mae'n ymwneud â sicrhau bod addysgu, cefnogaeth, asesiad ac adnoddau dysgu priodol ac effeithiol yn cael eu darparu iddynt. Er mwyn cyflawni'r dyfarniad addysg uwch, mae myfyrwyr yn cyfranogi yn y cyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt gan eu darparwr. Dylai darparwr allu gwarantu ansawdd y cyfleoedd y mae'n eu darparu, ond ni all warantu sut y bydd unrhyw fyfyriwr yn profi'r cyfleoedd hynny. Drwy sicrhau bod ei bolisïau, strwythurau a phrosesau ar gyfer rheoli cyfleoedd dysgu'n cael eu gweithredu'n effeithiol, mae darparwr yn sicrhau effeithiolrwydd ei ganlyniadau hefyd.

**Safonau academaidd trothwy** yw'r lefelau isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol y mae'n rhaid i fyfyriwr ei ddangos er mwyn bod yn gymwys i dderbyn dyfarniad academaidd. Ar gyfer dyfarniadau cyfatebol, caiff y lefel trothwy o gyflawniad ei chytuno ar draws y DU a'i disgrifio gan y disgrifwyr cymhwyster sydd wedi'u nodi *yn y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC). Mae safonau academaidd trothwy'n diffinio'r safonau gofynnol y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu graddau eu defnyddio i ddyfarnu cymwysterau ar lefel benodol yn y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol (er enghraifft, gradd sylfaen neu radd doethuriaeth).

**Safonau academaidd** yw'r safonau a osodir ac a gynhelir gan gyrff dyfarnu graddau unigol ar gyfer dyfarnu eu credydau neu eu cymwysterau academaidd. Gallai'r rhain fod yn uwch na'r safonau academaidd trothwy. Mae cyrff dyfarnu graddau unigol yn gyfrifol am ddiffinio eu safonau academaidd eu hunain drwy osod y marciau pasio a phennu'r cynlluniau graddio/marcio ac unrhyw feini prawf ar gyfer dosbarthu cymwysterau sy'n gwahaniaethu rhwng lefelau cyflawniad y myfyrwyr sy'n uwch ac sy'n is na'r safonau academaidd trothwy.

Nid yw sefydliadau darparu sy'n cydweithio â chyrff dyfarnu graddau'n cario yr un cyfrifoldebau am safonau academaidd ond maent angen deall sut mae safonau academaidd yn cael eu gosod a'u cynnal o fewn addysg uwch yn y DU. Mae rôl benodol sefydliad darparu, mewn perthynas â safonau academaidd, wedi'i disgrifio yn y cytundeb ffurfiol gyda'i gorff dyfarnu graddau. Mae hyn yn berthnasol hefyd i sefydliadau dyfarnu ac i'r berthynas rhwng partneriaid darparu a sefydliadau dyfarnu.

Mae **cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio** (cyrff PSRB) yn sefydliadau sy'n gosod y safonau ar gyfer, ac yn rheoli'r safonau mynediad i mewn i, broffesiynau penodol. Penderfynir ar gymwysterau proffesiynol (yn wahanol i gymwysterau academaidd) gan gyrff PSRB a gallent nodi'r gofynion academaidd y mae'n rhaid eu cyflawni er mwyn cydnabod bod rhaglen academaidd yn arwain at, neu'n sicrhau eithriad rhag rhan o, gymhwyster proffesiynol.

Lle mae cyrff dyfarnu graddau / sefydliadau dyfarnu'n dewis cynnig rhaglenni sy'n arwain at gymwysterau proffesiynol penodol, neu'n sicrhau eithriad o unrhyw ran ohonynt, bydd gofynion y corff PSRB perthnasol yn dylanwadu ar gynllun rhaglenni academaidd, ond mae'r cyfrifoldeb am y safonau academaidd yn parhau gyda'r corff dyfarnu graddau / sefydliad dyfarnu sy'n dyfarnu'r cymhwyster academaidd.

Pan fydd achrediad gan ddarparwyr achrediad gan y cyrff PSRB am eu rhaglenni, bydd timau adolygu'n archwilio ym mha fodd y rhoddir ystyriaeth i'r gofynion achredu yn ystod y broses o osod a chynnal safonau a sicrhau ansawdd y rhaglenni. Bydd timau adolygu'n archwilio hefyd pa mor gywir yw'r wybodaeth a roddir i'r myfyrwyr am statws wedi'i achredu.

Mae **profiad academaidd y myfyrwyr** yn cyfeirio at y profiad dysgu y mae myfyrwyr yn ei dderbyn gan y darparwr a sut y cânt eu cefnogi i symud ymlaen a llwyddo. Mae hefyd yn cynnwys dibynadwyedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y profiad academaidd.

Mae **darpariaeth addysg drawswladol** yn cyfeirio at yr holl fathau o raglenni astudio addysg uwch, neu gyfresi o gyrsiau astudio, neu wasanaethau addysgol (yn cynnwys addysg o bell) lle mae'r dysgwyr wedi'u lleoli mewn gwlad wahanol i'r un lle mae'r darparwr dyfarnu wedi'i seilio. Gallai rhaglenni o'r fath berthyn i system addysg Gwladwriaeth sy'n wahanol i'r Wladwriaeth lle mae'n gweithredu, neu gallai weithredu'n annibynnol i unrhyw system addysg genedlaethol.

Mae **meysydd sydd angen eu datblygu**'n berthnasol i feysydd sydd â'r potensial, ym marn y tîm adolygu, i wella ansawdd a/neu sicrhau ymhellach ddibynadwyedd safonau academaidd a/neu allu'r safonau academaidd i gael eu cymharu.

Mae **gwelliannau penodol** yn ymwneud â materion sydd, ym marn y tîm adolygu, yn rhoi ansawdd a/neu safonau mewn perygl yn barod, neu a allai roi'r ansawdd a/neu'r safonau mewn perygl, ac sydd felly angen eu gwella.

## Atodiad 2: Cyflwyniad y darparwr a'r fframwaith ar gyfer hunanwerthuso yn erbyn y gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol

Mae'r atodiad yma'n rhoi rhagor o wybodaeth am gyflwyniad y darparwr ac mae'n amlinellu sut y gallai'r darparwr gyfeirio at y gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

Mae modd cynhyrchu cyflwyniad y darparwr yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Dylai cyflwyniad y darparwr nodi'n gyntaf y cyd-destun y mae'r darparwr yn gweithredu ynddo, dylai ddisgrifio'n fyr y ddarpariaeth addysg uwch sy'n cael ei hadolygu, a dylai roi gwybod i'r tîm am unrhyw newidiadau (mawr) diweddar a'u goblygiadau o ran sicrhau safonau academaidd a phrofiad academaidd y myfyrwyr. Lle bo'n berthnasol, dylid darparu manylion perthynas y darparwr gyda'i gyrff dyfarnu / sefydliadau dyfarnu bob amser.

Yna dylai'r cyflwyniad fynd ymlaen i amlinellu sut mae'r darparwr yn cyflawni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

Gwelwch y cwestiynau dangosol a'r dystiolaeth ddangosol sydd wedi'u nodi yn yr atodiad yma.

**Sut y defnyddir cyflwyniad y darparwr**

Defnyddir cyflwyniad y darparwr drwy gydol y broses Adolygiad Ansawdd Porth, fel ffynhonnell wybodaeth yn ogystal â ffordd o lywio drwy'r dystiolaeth ategol. Bydd yr adolygwyr yn chwilio am arwyddion bod y darparwr yn:

- meddu ar drefniadau i sicrhau ei fod yn gallu bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol
- ystyried ac yn monitro'n systematig pa mor effeithiol y mae'n cyflawni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol
- defnyddio dulliau o fonitro a hunanwerthuso gwybodaeth rheoli, a chymariaethau yn erbyn ei berfformiad yn y gorffennol a meincnodau cenedlaethol a rhyngwladol, lle maent ar gael ac yn berthnasol.

Dylai'r darparwr ddangos bod ei waith ei hun o fonitro a hunanwerthuso:

- yn cael ei wneud mewn partneriaeth gyda'i fyfyrwyr (a rhanddeiliaid eraill, lle bo hynny'n berthnasol)
- yn cynnal goruchwyliaeth ar lefel y darparwr
- yn arwain at bennu'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella, ac wedi hynny at newidiadau yng ngweithdrefnau neu arferion darparwr.

Dylai cyflwyniad y darparwr hefyd ystyried effeithiolrwydd dulliau addysgol y darparwr o sicrhau bod cyfraniadau cyfunol y staff addysgu a'r myfyrwyr yn galluogi myfyrwyr i gyflawni canlyniadau dysgu eu rhaglenni.

**Fel canllaw, byddem yn disgwyl i gyflwyniad y darparwr fod yn hirach na 40 tudalen.**

## Tystiolaeth ategol ar gyfer cyflwyniad y darparwr

Mae'n hanfodol bod cyflwyniad y darparwr yn pennu tystiolaeth sy'n dangos ei fod yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol. Nid cyfrifoldeb y tîm adolygu yw hi i chwilio am y dystiolaeth hon. I helpu'r darparwr i sicrhau bod gan dimau adolygu'r dystiolaeth y maent ei hangen, mae rhestr o'r dystiolaeth ofynnol i'w chael isod. Bydd angen i'r dystiolaeth a gyflwynwch gyda'ch cyflwyniad ymdrin â'r meysydd a ddarperir yn y rhestr hon fan lleiaf.

Efallai y bydd y darparwyr eisiau ystyried dilyn y fframwaith perthnasol o ofynion rheoleiddiol sylfaenol wrth gynhyrchu cyflwyniad y darparwr. Mae QAA yn disgwyl i bob darparwr deilwra'r cwestiynau a'r dystiolaeth i'w gyd-destun penodol ei hun. **Ni ddisgwylir i'r darparwyr greu unrhyw dystiolaeth newydd ar gyfer yr Adolygiad Ansawdd Porth** a dim ond tystiolaeth sy'n bodoli'n barod y dylai ei darparu.

Er bod dethol tystiolaeth yn digwydd yn ôl disgresiwn y darparwr, mae'n bwysig bod y darparwr yn dethol yn ddeallus, gan gyfyngu'r dystiolaeth i honno sy'n amlwg berthnasol i hunanwerthusiad y darparwr yn erbyn y gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol. Mae'n ddigon derbyniol -
yn wir mae'n ddisgwyliedig - i'r darparwr gyfeirio at yr un darnau allweddol o dystiolaeth mewn gwahanol rannau o'r cyflwyniad. Drwy ddethol maint cyfyngedig o dystiolaeth yn ofalus, bydd y darparwr yn dangos ei aeddfedrwydd o ran sicrhau ansawdd. Gallai gormod o dystiolaeth awgrymu nad yw'r darparwr wedi deall ei ddyletswyddau'n gywir.

**Fel canllaw, byddem yn disgwyl derbyn llai na 100 o ddarnau o dystiolaeth ategol.**

Fodd bynnag, bydd y tîm adolygu'n ei chael hi'n anodd cwblhau'r broses Adolygiad Ansawdd Porth heb gael gweld y cyfresi canlynol o wybodaeth:

- cytundebau wedi'u llofnodi gyda chyrff dyfarnu graddau a/neu sefydliadau dyfarnu, lle bo'n berthnasol
- polisi, gweithdrefnau ac arweiniad ar sicrhau a gwella ansawdd (gallai hwn fod yn llawlyfr neu'n god ymarfer)
- diagram o'r strwythur o brif gyrff (cydgynghorol a rheoli) sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd a safonau - dylai hwn ddangos cyrff canolog a lleol (hynny yw, ar lefel ysgol/cyfadran neu debyg)
- sampl cynrychiadol o gofnodion y prif gyrff sicrhau ansawdd ar gyfer y ddwy flynedd academaidd cyn yr Adolygiad Ansawdd Porth
- sampl o adroddiadau trosolwg blynyddol (er enghraifft, ar arholi allanol neu fonitro blynyddol) lle mae'r rhain yn effeithio ar sicrwydd ansawdd a safonau ar gyfer y ddwy flynedd cyn yr Adolygiad Ansawdd Porth
- ar gyfer darparwyr sydd heb ddigon o ddata, data am berfformiad y myfyrwyr ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf (e.e. data am gofrestriad, cadwraeth, cwblhad a chyflawniad myfyrwyr) - mae templed Excel ar gael, os gofynnir amdano
- ar gyfer darparwyr sydd â chyrff/sefydliadau dyfarnu, rhestr wirio gyflawn o gyfrifoldebau a gwblhawyd (gwelwch Atodiad 4) - un ar gyfer pob un o'u cyrff dyfarnu.

**Tabl 6: Y fframwaith o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol ar gyfer tystiolaeth a chwestiynau dangosol mewn Adolygiadau Ansawdd Porth**

| Y gofynion | Cwestiynau dangosol | Tystiolaeth ddangosol |
|---|---|---|
| *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) | • Beth yw eich dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau a roddwyd i chi gan bob un o'ch cyrff dyfarnu graddau a/neu'ch sefydliadau dyfarnu eraill, am helpu i osod a/neu gynnal safonau academaidd eu dyfarniadau?<br>• Sut ydych chi'n sicrhau bod safonau academaidd eich rhaglenni ar lefel sy'n cwrdd â, neu sy'n mynd yn uwch na safon trothwy'r DU ar gyfer y cymhwyster fel y mae wedi'i ddisgrifio yn y FHEQ?<br>• A oes unrhyw bwyntiau cyfeirio eraill a ddefnyddiwch ar gyfer safonau academaidd?<br>• Sut ydych chi'n profi bod myfyrwyr wedi cyflawni'r safonau academaidd a osodir ac/neu a gynhelir lle gwneir darpariaeth ar eich rhan?<br>• Sut ydych chi'n sicrhau bod safonau academaidd eich rhaglenni'n gymaradwy â safonau academaidd darparwyr addysg uwch eraill yn y DU?<br>• Sut ydych chi'n defnyddio data i fonitro eich safonau academaidd? | • Manylebau rhaglenni<br>• Dogfennaeth gymeradwyo rhaglenni<br>• Fframweithiau/rheoliadau asesu<br>• Cofnodion y bwrdd arholwyr<br>• Adroddiadau arholwyr allanol ac ymatebion y darparwr iddynt<br>• Dadansoddiad o ddata am gadwraeth a chynnydd |
| *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC) | • Sut ydych chi'n ystyried y FfCChC yn eich polisïau a'ch arferion?<br>• Sut cafodd eich darpariaeth ei halinio â'r FfCChC? Beth yw'r camau a gymerwyd i sicrhau hyn?<br>• Sut ydych chi'n sicrhau bod eich staff yn derbyn yr wybodaeth y maent ei hangen mewn perthynas â'r FfCChC? | • Manylebau rhaglenni<br>• Dogfennaeth gymeradwyo rhaglenni<br>• Fframweithiau/rheoliadau asesu<br>• Cofnodion y bwrdd arholwyr<br>• Adroddiadau arholwyr allanol ac ymatebion y darparwr iddynt<br>• Dadansoddiad o ddata am gadwraeth a chynnydd<br>• Cyfathrebiadau gyda'r staff |

| Y gofynion | Cwestiynau dangosol | Tystiolaeth ddangosol |
|---|---|---|
| Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd) | • Beth yw eich dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau a roddwyd i chi gan bob un o'ch cyrff dyfarnu graddau a/neu'ch sefydliadau dyfarnu eraill, am sicrhau ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr?<br>• Pa drefnau sydd gennych ar gyfer rheoli ansawdd profiad y myfyrwyr? Sut ydych chi'n gwybod bod y trefnau hynny'n effeithiol?<br>• Sut ydych chi'n canfod meysydd sydd angen eu gwella ym mhrofiad academaidd y myfyrwyr?<br>• Sut ydych chi'n defnyddio data i hysbysu eich gwaith o sicrhau gwelliant parhaus yn ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr?<br>• Sut ydych chi'n cynnwys y myfyrwyr yn y broses ddysgu ac asesu?<br>• Sut ydych chi'n sicrhau bod gan eich staff y cymwysterau a'r sgiliau priodol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel?<br>• Sut ydych chi'n defnyddio rhanddeiliaid allanol a mewnbwn allanol i wella ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr?<br>• Sut ydych chi'n sicrhau bod eich dull o dderbyn myfyrwyr yn deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol?<br>• Sut ydych chi'n sicrhau bod adnoddau dysgu a chymorth ar gael i'ch myfyrwyr sy'n ddigonol ac yn hawdd cael gafael arnynt?<br>• Sut ydych chi'n casglu, ac yn ymateb i, adborth gan fyfyrwyr?<br>• Sut ydych chi'n cynnwys y myfyrwyr yn y broses o reoli ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr? | • Polisïau sicrhau ansawdd datganedig<br>• Sampl cynrychiadol bychan o gylchoedd gwaith a chofnodion cyrff o fewn strwythurau ymgynghorol<br>• Strategaethau dysgu, addysgu ac asesu<br>• Strategaethau datblygu staff<br>• Strategaethau ar gyfer darparu adnoddau dysgu a chymorth i fyfyrwyr<br>• Polisi derbyn / trefn dderbyn<br>• Esiamplau o adborth gan fyfyrwyr, ac ymatebion y darparwr |

## Pwyntiau i'w hystyried wrth gasglu cyflwyniad y darparwr a'r dystiolaeth ategol ynghyd

**Tabl 7: Y gofynion technegol ar gyfer cyflwyniad y darparwr a'r dystiolaeth ategol**

| **Y gofynion technegol ar gyfer cyflwyniad y darparwr a'r dystiolaeth ategol** | |
|---|---|
| Y cyfyngiadau dynodol | Fel canllaw, ni ddylai cyflwyniad y darparwr fod yn hirach na 40 tudalen, gan ddefnyddio ffont sy'n gyfatebol ag Arial maint 11. Dylai hyn gynnwys unrhyw siartiau a diagramau.<br><br>Byddem yn disgwyl derbyn llai na 100 o ddarnau o dystiolaeth i ategu cyflwyniad y darparwr. |
| Y cyflwyniad cyffredinol | Dylid darparu cyflwyniad y darparwr a'r dystiolaeth ategol mewn strwythur dealladwy:<br><br>• yr holl ffeiliau gyda'i gilydd heb unrhyw is-ffeiliau neu ffeiliau sip, dogfennau wedi'u labelu'n glir gyda rhifau - yn cychwyn gyda 001, 002, ac yn y blaen<br><br>• sicrhau bod cyfeirnod unigryw gan bob dogfen - peidiwch â rhifo'r un ddogfen gyda rhifau gwahanol a'i chyflwyno nifer o weithiau. |
| Trefn enwi ffeiliau | Defnyddiwch y canlynol yn unig: rhifolion neu lythrennau (a-z, heb do bach neu acen arall), bylchau, y tanlinellu (_) a'r cysylltnod (-).<br><br>**Peidiwch** â defnyddio:<br><br>• atalnod llawn neu unrhyw symbolau neu farciau atalnodi eraill, oherwydd ni fydd y rhain yn llwytho'n llwyddiannus. |
| Y mathau o ffeil y dylid osgoi eu llwytho | **Peidiwch** â llwytho:<br><br>• ffeiliau dolen (a adnabyddir hefyd fel ffeiliau .lnk ac .url)<br><br>• ffeiliau dros dro sy'n cychwyn gyda thild (˜)<br><br>• ffeiliau gweinyddol megis thumbs.db a .DS_Store. |
| I gael cymorth technegol gyda llwytho ffeiliau, mae croeso i chi gysylltu â desg gwasanaeth QAA ar +44 (0)2829 33 11 11, neu anfon e-bost at onedesk@m5servicedesk.ac.uk.<br><br>Mae'r ddesg gwasanaeth yn agored rhwng 9am a 5pm, Dydd Llun i Ddydd Gwener. | |

## Atodiad 3: Yr iaith Gymraeg

Mae QAA wedi'i hymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth wneud ein gwaith yng Nghymru. Caiff pob dogfen sy'n ymwneud â'r adolygiad, yn ogystal â phob adroddiad adolygu, eu cynhyrchu yn y ddwy iaith.

Ar gyfer adolygiadau o ddarparwyr yng Nghymru, rydym yn ceisio penodi adolygwyr a rheolwyr adolygiad sy'n ddwyieithog. Mae ein proses hysbysebu a phenodi'n cefnogi'r amcan yma'n weithredol.

Mewn unrhyw adolygiad o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru, rydym yn cydnabod bod gan bob unigolyn yr hawl i ddewis y Gymraeg fel cyfrwng a bod gan bob adolygwr dwyieithog yr hawl i siarad Cymraeg. Byddwn fel arfer yn ceisio cytundeb i ddefnyddio cyfleusterau cyfieithu sydd gan y darparwr yn barod, neu os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn darparu ein cyfleusterau cyfieithu ysgrifenedig neu gyfieithu ar y pryd ein hunain.

Yn y cyfarfodydd cynllunio adolygiad cychwynnol rydym yn sicrhau bod y Swyddog QAA yn canfod pa iaith a ddewiswyd gan y darparwr a'r cyfranogwyr unigol ar gyfer gweithredu'r adolygiad ynddi, gan benderfynu pa elfennau o'r broses adolygu sydd i gael eu gweithredu yn y Gymraeg, a byddwn yn gwneud trefniadau cyfieithu os nad yw pob un o'r cyfranogwyr yn ddwyieithog.

Gall darparwyr a myfyrwyr gyflwyno eu dogfennau yn y naill iaith neu'r llall, yn ôl eu dewis.

Yn dilyn cytundeb ynglŷn â pha elfennau o'r adolygiad fydd yn cael eu gweithredu'n ddwyieithog, byddwn yn gwneud trefniadau, ac yn talu costau, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y gweithgareddau adolygu hynny yr ydym wedi cytuno i'w gweithredu'n ddwyieithog.

Rydym yn cydnabod bod maint y defnydd a wneir fel arfer o'r Gymraeg a'r Saesneg yn amrywio rhwng darparwyr. Rydym yn parchu'r gwahaniaethau hyn ac yn ceisio penodi rheolwyr adolygiad dwyieithog i hwyluso'r broses adolygu ar gyfer darparwyr lle defnyddir y Gymraeg yn helaeth.

## Atodiad 4: Rhestr wirio o gyfrifoldebau ar gyfer darparwyr sydd heb bwerau dyfarnu graddau

Dylech gwblhau un copi o'r rhestr wirio hon ar gyfer pob partneriaeth gyda chorff dyfarnu neu sefydliad dyfarnu a'i hanfon at QAA yn rhan o'r sail tystiolaeth ar gyfer y cyflwyniad. I helpu darparwyr gyda'r ymarfer hwn, mae QAA a Pearson wedi cydweithio i gynhyrchu rhestr wirio safonol o gyfrifoldebau ar gyfer darparwyr sy'n darparu Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch a Diplomâu Cenedlaethol Uwch a ddyfernir gan Pearson. Mae'r rhestr wirio hon ar gael ar wefan QAA.[15] Bydd adolygwyr QAA yn defnyddio'r rhestr wirio safonol yma mewn perthynas ag unrhyw raglenni o'r fath. Mae'r rhestr wirio safonol isod.

**Y darparwr:** **Y corff/sefydliad dyfarnu:**

Pennwch y cyfrifoldebau rheoli (neu'r cyfrifoldebau sydd i gael eu gweithredu mewn cytundebau partneriaeth) gan ddefnyddio'r rhestr wirio isod. Pan fo'r darparwr yn gwbl gyfrifol (y gweithredu wedi'i ddirprwyo'n gyfan gwbl), marciwch y golofn darparwr; os oes gan y corff/sefydliad dyfarnu gyfrifoldeb llawn, marciwch y golofn corff/sefydliad dyfarnu; os yw'r cyfrifoldeb wedi'i rannu neu os yw'r darparwr yn gweithredu o dan gyfarwyddyd y corff/sefydliad dyfarnu, marciwch y golofn a rannwyd. Pan fo cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo i'r darparwr neu pan fo wedi'i rannu, rhowch gyfeiriadau at ddogfennau sy'n dangos sut y mae hwn wedi'i reoli neu ei weithredu.

| Maes | Y darparwr | Y corff/ sefydliad dyfarnu | A rannwyd | Dogfen(nau) i gyfeirio ati/atynt |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu a chymeradwyo rhaglenni | | | | |
| Addasu rhaglenni | | | | |
| Gosod asesiadau | | | | |
| Marcio gwaith y myfyrwyr am y tro cyntaf | | | | |
| Safoni neu ail farcio gwaith y myfyrwyr | | | | |
| Rhoi adborth i fyfyrwyr am eu gwaith | | | | |
| Recriwtio myfyrwyr | | | | |
| Derbyn myfyrwyr | | | | |
| Dethol neu gymeradwyo staff addysgu | | | | |
| Adnoddau dysgu (sy'n cynnwys adnoddau llyfrgell) | | | | |
| Ymgysylltiad â'r myfyrwyr | | | | |
| Ymateb i adroddiadau'r arholwyr allanol | | | | |
| Monitro blynyddol | | | | |
| Adolygu cyfnodol | | | | |
| Cwynion myfyrwyr | | | | |
| Apeliadau myfyrwyr* | | | | |
| Rheoli'r berthynas gyda sefydliadau partner eraill (e.e. darparwyr lleoliadau gwaith) | | | | |
| Gwelliant | | | | |

* Am na all y darparwr dyfarnu ddirprwyo'r cyfrifoldeb am safonau academaidd i'w bartner darparu, mae'n rhaid i'r darparwr dyfarnu gadw'r cyfrifoldeb pennaf am apeliadau academaidd a chwynion am safonau academaidd.

---

[15] www.qaa.ac.uk/docs/qaa/guidance/pearson-responsibilities-checklist-welsh.pdf

## Atodiad 5: Fframwaith asesu ar gyfer penderfynu ar y beirniadaethau mewn Adolygiad Ansawdd Porth

Bydd pob ymweliad adolygu'n ystyried trefniadau'r darparwr yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol, ac yn ystyried y canlynol yn arbennig:

a Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir mewn darparwyr eraill yn y DU.

b Ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r myfyrwyr lle mae gan y darparwr hanes o ran darpariaeth addysg uwch.

Bydd y tîm adolygu hefyd yn pennu meysydd sydd angen eu datblygu a/neu welliannau penodol a fyddai'n helpu'r darparwr i fodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol.

Ar gyfer (a) a (b) uchod, bydd canlyniadau'r Adolygiad Ansawdd Porth yn feirniadaethau a fydd yn cael eu mynegi fel un o'r canlynol:

1 '**Hyder**' bod:

a y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn cymharu'n rhesymol â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yn y DU

b ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

2 '**Hyder cyfyngedig**', yn gofyn am welliannau penodol cyn y gellir teimlo 'hyder' bod:

a y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn cymharu'n rhesymol â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yn y DU

b ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

3 '**Dim hyder**' ar hyn o bryd bod:

a y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn cymharu'n rhesymol â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yn y DU

b ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

Mae'r meini prawf y bydd y timau adolygu'n eu defnyddio i wneud y beirniadaethau hyn i'w gweld isod. Mae'r beirniadaethau'n gronnus, sy'n golygu y dylid bodloni'r rhan fwyaf o'r meini prawf o fewn adran benodol er mwyn cefnogi'r feirniadaeth berthnasol.

**Tabl 8: Fframwaith ar gyfer penderfynu ar y beirniadaethau**

| 'Hyder' | 'Hyder cyfyngedig' | 'Dim hyder' |
|---|---|---|
| Gallai unrhyw feysydd sydd angen eu datblygu fod yn gysylltiedig, er enghraifft, â:<br>• hepgoriad neu amryfusedd bychan<br>• yr angen i addasu neu ddiweddaru dulliau, lle na fydd yr addasiad yn creu neu'n gofyn am greu newid strwythurol, gweithredol neu drefniadol mawr<br>• gweithgareddau sydd ar waith yn barod. | Gallai unrhyw welliannau penodol fod yn gysylltiedig, er enghraifft, â:<br>• gwendidau yn nulliau'r darparwr o gyflawni'r agwedd hon o'r gofyniad rheoleiddiol sylfaenol<br>• phwyslais neu flaenoriaeth annigonol ar sicrhau safonau neu ansawdd<br>• phroblemau sydd wedi'u cyfyngu i ran fechan o'r ddarpariaeth. | Gallai unrhyw welliannau penodol fod yn gysylltiedig, er enghraifft, â:<br>• dulliau aneffeithiol o gyflawni'r agwedd hon o'r gofyniad rheoleiddiol sylfaenol<br>• bylchau sylweddol ym mholisïau neu ddulliau'r darparwr sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd<br>• y darparwr yn torri ei bolisi sicrhau ansawdd ei hun. |
| Mae'r darparwr wedi cydnabod bod angen gweithredu, ac mae wedi darparu tystiolaeth glir o'r camau gweithredu priodol y mae'n eu cymryd o fewn amser rhesymol. | Nid yw'r cynlluniau y mae'r darparwr yn eu cyflwyno ar gyfer ymdrin â phroblemau a ganfuwyd wedi'u datblygu'n ddigonol neu eu cynnwys yn gyflawn yng ngwaith cynllunio gweithredol y darparwr, a gallai hynny arwain at broblem ddifrifol dros amser, os na chânt sylw. | Nid yw'r cynlluniau ar gyfer ymdrin â phroblemau a ganfuwyd y gall y darparwr eu cyflwyno cyn neu yn ystod y broses Adolygiad Ansawdd Porth, yn ddigonol i gywiro'r problemau, neu does dim tystiolaeth o ddatblygiad, neu ychydig iawn o dystiolaeth o ddatblygiad sydd. |
| Mae tystiolaeth i ddangos bod y darparwr yn hollol ymwybodol o'i gyfrifoldebau ynglŷn â sicrhau ansawdd a safonau, ac ni ragwelir y bydd unrhyw broblemau difrifol yn datblygu. | Mae camau gweithredu diweddar a blaenoriaethau'r darparwr yn awgrymu nad yw darparwr yn gwbl ymwybodol efallai o arwyddocâd materion penodol. | Nid yw'r darparwr wedi cydnabod bod ganddo broblemau mawr ac nid yw chwaith wedi cynllunio camau gweithredu sylweddol i ymdrin â phroblemau y mae wedi'u canfod. |
| | | Dim ond dealltwriaeth gyfyngedig sydd gan y darparwr o'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag un neu fwy o feysydd allweddol yr agwedd hon o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, neu efallai nad oes gan y darparwr reolaeth lawn ar bob rhan o'r sefydliad. |

## Atodiad 6: Rôl yr hwylusydd

Gwahoddir y darparwr i benodi hwylusydd i gefnogi'r broses Adolygiad Ansawdd Porth. Bwriad rôl yr hwylusydd yw gwella llif yr wybodaeth rhwng y tîm a'r darparwr. Bwriedir i'r hwylusydd fod yn aelod o staff y darparwr.

Dyma rôl yr hwylusydd:

- gweithredu fel y prif bwynt cyswllt i'r Swyddog QAA yn ystod y gwaith paratoi ar gyfer y broses Adolygiad Ansawdd Porth, gan gynnwys yn ystod yr ymweliad ar y safle
- gweithredu fel y prif gyswllt ar gyfer y tîm adolygu yn ystod yr ymweliad ar y safle
- rhoi cyngor ac arweiniad i'r tîm ar gyflwyniad y darparwr ac am unrhyw ddogfennaeth ategol
- rhoi cyngor ac arweiniad i'r tîm am strwythurau, polisïau, blaenoriaethau a gweithdrefnau'r darparwr
- cadw'r rhestr ddiweddaraf o dystiolaeth i'w chyflwyno i'r tîm adolygu drwy gydol y broses Adolygiad Ansawdd Porth, i'w gadarnhau gan y Swyddog QAA
- sicrhau bod gan y darparwr ddealltwriaeth dda o'r materion a godir gan y tîm adolygu, gan felly gyfrannu at effeithiolrwydd y broses Adolygiad Ansawdd Porth, ac at wella ansawdd a safonau dilynol o fewn y darparwr
- cyfarfod â'r tîm adolygu ar gais y tîm yn ystod yr ymweliad ar y safle, er mwyn rhoi rhagor o gyfarwyddyd am ffynonellau gwybodaeth ac egluro materion yn ymwneud â strwythurau, polisïau, blaenoriaethau a gweithdrefnau'r darparwr
- gweithio gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i sicrhau bod corff cynrychiolwyr y myfyrwyr wedi'i hysbysu am, ac yn deall, sut mae'r broses Adolygiad Ansawdd Porth yn dod yn ei blaen
- gweithio gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i hwyluso rhannu data rhwng y darparwr a'r corff myfyrwyr fel bod modd i gyflwyniad y myfyrwyr gynnwys gwybodaeth a thystiolaeth dda.

Ni fydd yr hwylusydd yn bresennol yng nghyfarfodydd preifat y tîm adolygu. Ond, bydd cyfle i'r hwylusydd gyfarfod â'r tîm yn rheolaidd, er mwyn rhoi cyfleoedd i'r tîm ac i'r darparwr geisio eglurhad pellach y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol. Bwriad hyn yw gwella'r cyfathrebu rhwng y darparwr a'r tîm yn ystod yr ymweliad ar y safle, a galluogi darparwyr i gael gwell dealltwriaeth o'r meysydd sydd dan sylw.

Caniateir i'r hwylusydd arsyllu unrhyw rai o gyfarfodydd eraill y tîm, heblaw'r rheiny gyda myfyrwyr. Pan fydd yr hwylusydd yn arsyllu cyfarfod, ni ddylai gymryd rhan mewn trafodaethau heblaw bod y tîm adolygu'n ei (g)wahodd i wneud hynny.

Dylai'r hwylusydd ddatblygu perthynas waith gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr sy'n briodol i'r darparwr ac i drefn gynrychioli'r corff myfyrwyr. Disgwylir y bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o oruchwylio ac efallai'r gwaith o baratoi cyflwyniad y myfyrwyr, ac hefyd yn y broses o ddethol myfyrwyr i gwrdd â'r tîm adolygu yn ystod yr ymweliad ar y safle.

Mewn rhai darparwyr, gallai fod yn briodol i'r hwylusydd gefnogi'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i sicrhau bod corff cynrychiolwyr y myfyrwyr yn hollol ymwybodol o'r broses Adolygiad Ansawdd Porth, ei phwrpas a rôl y myfyrwyr oddi mewn iddi. Lle bo'n briodol, ac mewn cytundeb â'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, gallai'r hwylusydd hefyd roi arweiniad a chefnogaeth i gynrychiolwyr y myfyrwyr wrth baratoi cyflwyniad y myfyrwyr ac ar gyfer cyfarfodydd gyda'r tîm adolygu.

## Penodi a briffio

Mae'n rhaid i'r sawl a benodir fel hwylusydd fod â:

- gwybodaeth weithredol dda o drefniadau'r darparwr ar gyfer sicrhau ansawdd yn erbyn cyfres o ofynion rheoleiddiol sylfaenol, ac o ddulliau'r darparwr o fonitro ac adolygu, a gwerthfawrogiad o faterion ansawdd a safonau
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dull Adolygiad Ansawdd Porth
- y gallu i gyfathrebu'n glir, i ddatblygu cydberthnasau ac i barchu cyfrinachedd
- y gallu i roi cyngor ac arweiniad gwrthrychol i'r tîm adolygu.

## Protocolau

Drwy gydol y broses Adolygiad Ansawdd Porth, rôl yr hwylusydd yw helpu'r tîm adolygu i gael dealltwriaeth eglur a chywir o drefniadau'r darparwr ar gyfer asesu ansawdd, i sicrhau bod y darparwr yn gallu darparu profiad academaidd o safon uchel gyson i'r myfyrwyr a bod y safonau academaidd yn ddiogel.

Mae'r rôl yma'n gofyn bod yr hwylusydd yn arsyllu'n wrthrychol, yn cyfathrebu'n glir gyda'r tîm lle gofynnir iddo/iddi wneud hynny, ac yn sefydlu perthynas effeithiol gyda'r Swyddog QAA a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Ni ddylai'r hwylusydd weithredu fel eiriolwr ar gyfer y darparwr. Ond, mae caniatâd i'r hwylusydd:

- ddod â gwybodaeth ychwanegol i sylw'r tîm
- geisio cywiro ffeithiau anghywir
- helpu'r darparwr i ddeall materion a godir gan y tîm.

Bydd y tîm adolygu'n penderfynu sut i ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan yr hwylusydd yn y ffordd orau.

Nid yw'r hwylusydd yn aelod o'r tîm ac ni fydd yn gwneud beirniadaeth am y ddarpariaeth. Mae'n rhaid i'r hwylusydd gadw yr un confensiynau cyfrinachedd â'r tîm adolygu.

Yn arbennig, mae'r defnydd ysgrifenedig a gynhyrchir gan aelodau'r tîm yn gyfrinachol, ac ni cheir defnyddio unrhyw wybodaeth a dderbynnir mewn ffordd sy'n caniatáu i unigolion gael eu hadnabod. Fodd bynnag, ar yr amod ei f/bod yn parchu cyfrinachedd yn briodol, caiff yr hwylusydd wneud nodiadau am drafodaethau gyda'r tîm a darparu adroddiad am hyn i aelodau eraill o staff, er mwyn sicrhau bod gan y darparwr ddealltwriaeth dda o'r materion a godwyd gan y tîm ar y cam hwn yn y broses. Gallai hyn helpu i wneud yr Adolygiad Ansawdd Porth yn fwy effeithiol ac felly wella ansawdd a safonau o fewn y darparwr.

Ni fydd yr hwylusydd yn gallu defnyddio system gyfathrebu electronig QAA ar gyfer timau adolygu. Hefyd, mae gan y tîm adolygu'r hawl i ofyn i'r hwylusydd adael y broses Adolygiad Ansawdd Porth ar unrhyw bwynt, os byddent yn ystyried bod gwrthdaro buddiannau, neu y bydd presenoldeb yr hwylusydd yn amharu ar y trafodaethau.

## Atodiad 7: Cyfranogaeth y myfyrwyr mewn Adolygiad Ansawdd Porth (yn cynnwys cyflwyniad y myfyrwyr)

Mae'r myfyrwyr ymysg y prif rai sy'n elwa o Adolygiad Ansawdd Porth, felly maent yn ganolog i'r broses. Mae llawer o gyfleoedd yn ystod bob Adolygiad Ansawdd Porth i fyfyrwyr hysbysu a chyfrannu at y broses, fel a ganlyn.

### Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr

Lluniwyd rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i ganiatáu i gynrychiolwyr y myfyrwyr chwarae rhan ganolog yn y gwaith o drefnu'r Adolygiad Ansawdd Porth. Bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn goruchwylio'r broses o gynhyrchu cyflwyniad y myfyrwyr.

Lle corff cynrychiolwyr y myfyrwyr yw hi i benderfynu pwy ddylai gymryd rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Mae QAA yn cydnabod y gallai hynny fod yn anodd ynddo'i hun, ond mae'n awgrymu y gallai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fod yn swyddog o undeb y myfyrwyr, yn aelod priodol o gorff tebyg sy'n cynrychioli'r myfyrwyr, yn fyfyriwr a dynnir o drefnau sefydledig y darparwr ar gyfer cynrychioli'r cyrsiau, neu'n Swyddog Addysg neu berson cyfatebol. Os nad oes corff cynrychiolwyr myfyrwyr, bydd QAA yn awgrymu bod y darparwr yn chwilio am wirfoddolwr o blith y corff myfyrwyr i gyflawni'r rôl hon. Mae modd i'r myfyriwr fod yn aelod o'r staff hefyd, ond ni chaiff y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fod yn uwch aelod o'r staff, neu fod â swyddogaeth sy'n ymwneud ag ansawdd. Os oes unrhyw ansicrwydd, mae QAA yn cadw'r hawl i geisio cyngor gan CCAUC ynglŷn â pha mor addas yw'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr.

Nid oes gan bob darparwr yr adnoddau i allu darparu'r lefel o ymgysylltiad sy'n ofynnol gan y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, felly bydd QAA yn hyblyg ynglŷn â faint o amser y disgwylir i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ei ddarparu.

Byddai'n dderbyniol i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fod yn ymdrech tîm neu rannu swydd, cyhyd ag y bo'n glir gyda phwy y dylai QAA gyfathrebu. Ymhob achos, bydd QAA yn disgwyl i'r darparwr gefnogi gwaith y Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr gyda chymaint o gymorth gweithredol a logistaidd ag sy'n bosibl, ac yn arbennig sicrhau bod unrhyw wybodaeth neu ddata perthnasol a ddelir gan y darparwr yn cael eu rhannu gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i sicrhau bod sail ddigonol o wybodaeth a thystiolaeth ar gael ar gyfer cyflawniad y myfyrwyr.

Fel arfer, dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fod yn gyfrifol am wneud y canlynol:

- derbyn copïau o ohebiaeth allweddol gan QAA
- trefnu neu oruchwylio'r gwaith o ysgrifennu cyflwyniad y myfyrwyr
- dethol myfyrwyr i gwrdd â'r tîm adolygu
- arsyllu a/neu gymryd rhan yng nghyfarfod(ydd) y myfyrwyr - gwelwch y nodyn isod
- cynghori'r tîm adolygu yn ystod yr ymweliad ar y safle, os ceisir hynny
- mynd i'r cyfarfod terfynol yn ystod yr ymweliad ar y safle
- cysylltu'n fewnol gyda'r hwylusydd i sicrhau cyfathrebu esmwyth rhwng y corff myfyrwyr a'r darparwr
- dosbarthu gwybodaeth am y broses Adolygiad Ansawdd Porth i'r corff myfyrwyr
- rhoi sylwadau'r myfyrwyr ar yr adroddiad drafft
- cydlynu'r cyfraniad gan y myfyrwyr i gynllun gweithredu'r darparwr, os rhoddwyd y feirniadaeth 'anfoddhaol'.

Caniateir i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr arsyllu unrhyw rai o gyfarfodydd y tîm adolygu gyda'r myfyrwyr. Mae hwn yn gwbl wirfoddol ac nid oes unrhyw ddisgwyliad y dylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fynychu. Ni ddylai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr gymryd rhan yn nhrafodaethau'r tîm gyda myfyrwyr heblaw bod y tîm adolygu'n ei (g)wahodd i wneud hynny. Nid oes caniatâd i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fynd i gyfarfodydd y tîm gyda staff, heblaw'r cyfarfod terfynol ar ddiwrnod olaf yr ymweliad ar y safle.

Mae QAA yn ymroddedig i alluogi myfyrwyr i gyfranogi yn ei phrosesau adolygu. Y prif gyfryngau i fyfyrwyr hysbysu'r broses hon yw cyflwyniad y myfyrwyr a rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Fodd bynnag, efallai na fydd hi'n bosibl penodi Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ymhob darparwr a/neu i'r myfyrwyr wneud cyflwyniad y myfyrwyr. Dan yr amgylchiadau yma, efallai y bydd angen i ni ystyried ffordd arall o ganiatáu i fyfyrwyr roi eu barn i'r tîm adolygu'n uniongyrchol.

## Cyflwyniad y myfyrwyr

Pwrpas cyflwyniad y myfyrwyr yw helpu'r tîm adolygu i ddeall y profiad o fod yn fyfyriwr gyda'r darparwr dan sylw, a sut mae barn y myfyrwyr yn derbyn ystyriaeth ym mhrosesau'r darparwr ar gyfer gwneud penderfyniadau a sicrhau ansawdd. Os bydd cyflwyniad y myfyrwyr yn dangos problemau arwyddocaol yn y ffordd y mae'r darparwr yn sicrhau safonau ac ansawdd, gallai hyn beri i'r tîm adolygu dreulio mwy o amser ar faterion penodol nag y byddai wedi'i wneud os byddai'r cyflwyniad wedi awgrymu bod y darparwr yn rheoli ei gyfrifoldebau'n effeithiol. Felly, mae cyflwyniad y myfyrwyr yn ddarn hynod bwysig o dystiolaeth.

Mae modd cynhyrchu cyflwyniad y myfyrwyr yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

### Ffurf, hyd a chynnwys

Gallai cyflwyniad y myfyrwyr fod ar amrywiaeth o ffurfiau, er enghraifft, fideos, cyfweliadau, cyflwyniadau grwpiau ffocws, podlediadau, neu gyflwyniadau ysgrifenedig y myfyrwyr. Dylai'r cyflwyniad fod yn gryno a dylai esbonio'r ffynonellau tystiolaeth a hysbysodd ei sylwadau a'i gasgliadau.

Mae'n rhaid i gyflwyniad y myfyrwyr gynnwys datganiad i esbonio sut y cafodd ei gasglu, pwy yw ei awdur, ac i ba raddau y mae ei gynnwys wedi'i rannu gydag, a'i ardystio gan, fyfyrwyr eraill.

Bydd y tîm adolygu'n croesawu cyflwyniad y myfyrwyr sy'n ceisio cynrychioli safbwyntiau cyfran mor eang ag sy'n bosib o'r myfyrwyr. Anogir y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i ddefnyddio gwybodaeth sy'n bodoli'n barod, megis canlyniadau arolygon myfyrwyr mewnol a chanlyniadau wedi'u cofnodi o gyfarfodydd gyda'r staff a'r myfyrwyr, yn hytrach na chynnal arolygon yn arbennig ar gyfer cyflwyniad y myfyrwyr.

Hefyd, anogir y myfyrwyr i ymchwilio a defnyddio cyfresi data cenedlaethol, lle maent ar gael, sy'n rhoi gwybodaeth gymaradwy am y darparwr wrth roi cyflwyniad y myfyrwyr at ei gilydd. Un ffynhonnell dda o ddata perthnasol am israddedigion yw gwefan 'Darganfod Prifysgol'.[16] Mae'r wefan hon yn cynnwys cyfoeth o ddata, megis canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, a gwybodaeth am gyfraddau cwblhau ac am ganlyniadau a chyrchfannau graddedigion y gallai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr fod eisiau rhoi sylw arnynt yng nghyflwyniad y myfyrwyr, neu a allai fod yn ffynhonnell dda o dystiolaeth i ategu pwynt y mae'r myfyrwyr eisiau ei wneud.

Wrth lunio cyflwyniad y myfyrwyr a chasglu tystiolaeth ar ei gyfer, byddai'n ddefnyddiol petai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn ystyried y cyngor a roddir i ddarparwyr ar gyfer llunio cyflwyniad y darparwr (gwelwch Atodiad 2).

Yn arbennig, efallai y bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr eisiau cynnwys barn y myfyrwyr yn y cyflwyniad ynglŷn â pha mor dda yw'r darparwr am:

- wneud ei gyrsiau'n ddigon heriol a chymaradwy â chyrsiau tebyg mewn darparwyr eraill, gan gynnwys y cynnwys
- roi gwybodaeth i chi am yr hyn y mae angen i chi ei ddysgu a'i gyflawni

[16] https://discoveruni.gov.uk/cy

- wirio bod cyrsiau'n berthnasol ac wedi'u diweddaru bob amser, pan fyddent yn eu cyflwyno nhw'n gyntaf ac ar gyfnodau rheolaidd - gallent wneud hyn drwy ofyn i chi werthuso modiwlau neu gyrsiau neu drwy eich cynnwys chi mewn prosesau ffurfiol
- gynnwys pobl o'r tu allan i wirio bod cyrsiau'n ddigon heriol a chanddynt gynnwys priodol - gallai hyn gynnwys arholwyr allanol sy'n ysgrifennu adroddiadau a ddylai fod ar gael i chi eu darllen
- eich asesu chi'n deg ac yn gyson ac mewn ffyrdd sy'n profi'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu, ac wrth roi'r cyfleoedd priodol i chi i ddangos yr hyn yr ydych wedi'i ddysgu
- fod yn deg, yn eglur ac yn gyson yn y ffordd mae'n derbyn myfyrwyr
- eich galluogi i fod yn ddysgwyr annibynnol, a datblygu eich gallu i feddwl yn ddadansoddol, yn feirniadol ac yn greadigol
- eich helpu i ddatblygu a gwella, ar lefelau academaidd, personol a phroffesiynol
- eich cynnwys chi yn y gwaith o wirio a helpu i wella ansawdd yr addysg
- ddelio gyda chwynion am eich profiad fel myfyriwr ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau mewn ffordd deg ac amserol
- reoli cyrsiau sy'n cael eu haddysgu gan sefydliad arall ar eu rhan - gallai hyn ddigwydd os bydd coleg yn addysgu cwrs ond daw'r cymhwyster o'r brifysgol
- greu amgylchedd i fyfyrwyr ymchwil lle gallent ddysgu sut i wneud gwaith ymchwil a chyflawni canlyniadau ar lefelau academaidd, personol a phroffesiynol
- ddarparu gwybodaeth amdanynt eu hunain
- roi cyfleoedd i'r myfyrwyr i gyfrannu at welliant parhaus yn ansawdd eu haddysg.

Ni ddylai cyflwyniad y myfyrwyr enwi, na thrafod gallu, aelodau unigol o staff. Ni ddylai drafod cwynion personol. Dylai hefyd osgoi cynnwys sylwadau gan fyfyrwyr unigol nad ydynt efallai'n gymwys i siarad fel cynrychiolwyr grŵp ehangach.

Mae rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar sut i lunio cyflwyniad y myfyrwyr i'w cael ar wefan QAA.

**Dyddiad cyflwyno'r cyflwyniad**

Dylid rhoi cyflwyniad y myfyrwyr ar wefan electronig ddiogel QAA saith wythnos cyn yr ymweliad ar y safle. Bydd QAA yn cadarnhau'r union ddyddiad wrth ohebu â'r darparwr. Llwythir cyflwyniad y myfyrwyr ar yr un pryd â chyflwyniad y darparwr.

**Rhannu cyflwyniad y myfyrwyr gyda'r darparwr**

O ystyried y ffaith fod cyflwyniad y myfyrwyr yn dystiolaeth mor bwysig yn y broses Adolygiad Ansawdd Porth, er mwyn bod yn eglur ac yn deg rhaid ei rannu gyda'r darparwr - fan bellaf pan fydd yn cael ei lwytho i'r wefan electronig ddiogel.

## Parhad

Mae pob Adolygiad Ansawdd Porth yn digwydd dros gyfnod o rai misoedd. Mae'n debygol y bydd y darparwr a'i fyfyrwyr wedi bod yn paratoi ers peth amser cyn cychwyn yr ymweliad ar y safle, ac y byddent yn parhau i gymryd rhan yn y broses wedyn. Mae QAA yn disgwyl i'r darparwyr sicrhau fod myfyrwyr yn derbyn pob gwybodaeth am y broses ac yn cyfranogi'n llawn ynddi bob amser. Mae QAA yn disgwyl y bydd corff cynrychiolwyr y myfyrwyr a'r darparwr eisiau datblygu ffordd o gyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd ynglŷn ag asesu a gwella ansawdd, nid yn unig fel bod cynrychiolwyr y myfyrwyr yn cael eu hysbysu am yr Adolygiad Ansawdd Porth yn rheolaidd, ond hefyd i'w hannog i gymryd rhan ym mhrosesau asesu ansawdd y darparwr.

Unwaith y daw'r ymweliad ar y safle i ben, bydd QAA yn gwahodd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i roi sylwadau ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad drafft.

## Atodiad 8: Penodi, hyfforddi a rheoli adolygwyr

Cyflawnir Adolygiad Ansawdd Porth gan dimau o adolygwyr sy'n gymheiriaid. Cymheiriaid yw staff sydd ag arbenigedd lefel uwch mewn rheoli a/neu ddarparu darpariaeth addysg uwch, neu fyfyrwyr sydd â phrofiad o gynrychioli buddiannau myfyrwyr. Mae QAA yn penodi adolygwyr a bydd gofyn iddynt feddu ar y nodweddion arbenigedd isod. Nid oes unrhyw gyfyngiadau eraill ar y mathau o staff neu fyfyrwyr a allai ddod yn adolygwyr.

Mae hygrededd y broses Adolygiad Ansawdd Porth yn dibynnu i raddau mawr ar y ffaith fod gan dimau adolygu'r profiad a'r wybodaeth ddiweddaraf. Felly, mae QAA yn ffafrio penodi adolygwyr sydd wedi'u cyflogi ar hyn o bryd fel staff gan ddarparwyr, neu adolygwyr sy'n fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar raglen astudio. Ond, mae gwybodaeth a phrofiad yn dal i fod yn gyfredol am sbel unwaith y daw'r cyfnod o gyflogaeth neu gyfnod astudio i ben. Felly, bydd QAA yn caniatáu i fyfyrwyr barhau'n adolygwyr am gyfnod cyfyngedig wedi iddynt adael addysg uwch, a bydd hefyd yn ystyried hunan-enwebiadau gan gyn-staff sy'n gallu dangos ymgysylltiad parhaus ag ansawdd a safonau academaidd.

Gall adolygwyr sy'n fyfyrwyr barhau fel adolygwyr am hyd at ddwy flynedd academaidd wedi iddynt gwblhau eu hastudiaethau neu eu tymor fel swyddog sabothol. Ni chaiff adolygwr sy'n fyfyriwr fod yn uwch aelod o'r staff.

### Y manylion personol ar gyfer adolygwyr sy'n gymheiriaid

Dyma'r meini prawf hanfodol i adolygwyr sy'n staff:

- profiad o reoli a sicrhau safonau academaidd ac ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch mewn swydd gefnogi broffesiynol neu academaidd uwch ar lefel sefydliad, cyfadran a/neu ysgol
- dealltwriaeth drwyadl o gynnwys, rôl a gweithrediad ymarferol y gofynion rheoleiddiol sylfaenol
- gwybodaeth weithredol o'r amrywiaeth yn y sector addysg uwch
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol
- y gallu i weithio'n effeithiol gyda systemau cyfathrebu electronig ac/neu ar y we
- y gallu i weithio'n effeithiol yn rhan o dîm
- y gallu i gadw at brotocolau, gweithdrefnau a dyddiadau cwblhau y cytunwyd arnynt.

Dyma'r meini prawf manteisiol ar gyfer adolygwyr sy'n staff:

- profiad o gyfranogi fel cadeirydd, aelod o banel, aseswr neu rôl gyfatebol ym mhroses fonitro ac adolygu cyfnodol eu darparwr eu hunain ac/neu ddarparwyr eraill
- profiad o asesu cyflawniadau myfyrwyr ar raglenni addysg uwch eu darparwr eu hunain ac/neu ddarparwyr eraill (er enghraifft fel arholwr allanol)
- profiad o weithio ar gyfer, neu gyda, darparwr sydd wedi ymuno â'r sector addysg uwch yn ddiweddar
- profiad o weithio ar gyfer, neu gyda, choleg addysg bellach sy'n cynnig darpariaeth addysg uwch
- profiad o ymchwilio a/neu reoli cwynion ac apeliadau
- profiad o ddarparu a rheoli addysg drawswladol, ac/neu o sicrhau ei hansawdd
- gwybodaeth neu brofiad o amgylcheddau gweithredu tramor
- dealltwriaeth o'r system addysg bellach/uwch yng Nghymru.

Dyma'r meini prawf dethol hanfodol ar gyfer adolygwyr sy'n fyfyrwyr:

- profiad o gyfranogi, fel cynrychiolwyr buddiannau myfyrwyr, trwy gyfrannu at y gwaith o reoli safonau academaidd ac/neu ansawdd NEU dystiolaeth bod ganddynt ddiddordeb mewn sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn ddiogel
- ymwybyddiaeth gyffredinol o'r amrywiaeth yn y sector addysg uwch ac o'r trefniadau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol
- y gallu i weithio'n effeithiol gyda systemau cyfathrebu electronig ac/neu ar y we
- y gallu i weithio'n effeithiol yn rhan o dîm
- y gallu i gadw at brotocolau, gweithdrefnau a dyddiadau cwblhau y cytunwyd arnynt.

Dyma'r meini prawf manteisiol ar gyfer adolygwyr sy'n fyfyrwyr:

- profiad o addysg uwch a ddarperir mewn coleg addysg bellach neu sefydliad darparwr amgen
- profiad o gymryd rhan mewn addysg uwch y tu allan i'r DU neu wybodaeth am systemau addysg uwch rhyngwladol
- profiad o addysg drawswladol
- dealltwriaeth o'r system addysg bellach/uwch yng Nghymru.

Wrth ddethol adolygwyr, mae QAA yn ceisio sicrhau bod amrywiaeth eang o wahanol ddarparwyr yn cael ei chynrychioli yn y gronfa adolygwyr, a bod y gronfa'n weddol gytbwys o ran sectorau, disgyblaethau, lleoliadau daearyddol, rhyw'r bobl a'u cefndiroedd ethnig.

## Rheoli adolygwyr

Penodir adolygwyr ar y sail eu bod yn cytuno i wneud tri Adolygiad Ansawdd Porth ymhob blwyddyn academaidd, os gofynnir iddynt wneud hynny. Bydd yr apwyntiad yn cael ei adolygu ar ôl pob blwyddyn, ond gellir ei ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod yma drwy gytundeb o'r ddwy ochr ac yn dibynnu ar berfformiad boddhaol.

Ar ddiwedd pob Adolygiad Ansawdd Porth, bydd QAA yn gofyn i'r adolygwyr gwblhau ffurflen werthuso safonol. Mae'r ffurflen yn eu gwahodd i roi adborth am eu perfformiad eu hunain ac am berfformiad yr adolygwyr eraill. Bydd y Swyddog QAA sy'n cydlynu'r Adolygiad Ansawdd Porth yn rhoi adborth ar bob un o'r adolygwyr hefyd. Mae QAA yn rhannu'r adborth hwn yn rheolaidd gyda'r adolygwyr perthnasol, i'w galluogi i ddod i wybod beth yw barn eu cymheiriaid, ac i ystyried eu barn. Mae'r adborth yn ddienw; nid yw'r rheiny sy'n derbyn yr adborth yn gallu gweld pwy ddarparodd yr adborth hwnnw.

Gwahoddir adolygwyr sydd wedi derbyn adborth arbennig o gadarnhaol i ddarparu rhagor o wybodaeth i'w defnyddio mewn hyfforddiant neu i'w phasio i adolygwyr eraill. Gellir cynnig cymorth ychwanegol i adolygwyr sydd wedi derbyn adborth llai cadarnhaol a/neu gellir eu tynnu o'r gronfa adolygwyr, yn dibynnu ar natur yr adborth a'i fynychder.

## Atodiad 9: Canllawiau am lunio cynllun gweithredu

### Y cefndir

Yn dilyn yr Adolygiad Ansawdd Porth, pan fydd y darparwr wedi derbyn y feirniadaeth o 'hyder cyfyngedig' neu 'ddim hyder' mewn un neu ymhob un o'r ddau faes beirniadaeth, bydd disgwyl i'r darparwr ddatblygu cynllun gweithredu sy'n ymdrin â'r meysydd sydd angen eu datblygu a'r gwelliannau penodol a nodwyd. Dylai'r cynllun gweithredu hwn gael ei lofnodi gan bennaeth y darparwr. Dylid cynhyrchu hwn ar y cyd gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr.

Nid yw CCAUC/QAA yn rhagnodi templed ar gyfer y cynllun gweithredu oherwydd bydd gan bob darparwr ei ffordd ei hun o gynllunio ar ôl yr Adolygiad Ansawdd Porth. Fodd bynnag, mae'r tabl isod yn esbonio'r penawdau a awgrymwyd.

| Maes sydd angen ei ddatblygu / gwelliant penodol | Camau gweithredu | Y dyddiad cwblhau | Gweithredu gan | Dangosyddion llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| Fel y nodwyd gan y tîm Adolygiad Ansawdd Porth ac sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad Adolygiad Ansawdd Porth. | Dylai'r darparwr nodi'r camau gweithredu arfaethedig i ymdrin â'r meysydd sydd angen eu datblygu / gwelliannau penodol sydd wedi'u pennu yn yr Adolygiad Ansawdd Porth.<br><br>Dylai'r camau gweithredu fod yn benodol, yn gymesur, yn fesuradwy ac wedi'u targedu ar gyfer y mater neu'r angen datblygiadol a nodwyd gan y tîm adolygu.<br><br>Efallai y bydd angen gwahanol gamau gweithredu. | Dylai'r darparwr nodi dyddiadau targed ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnig yn y golofn ar y chwith, o fewn yr amserlen a osodir gan y tîm adolygu.<br><br>Po fwyaf penodol yw'r cam gweithredu, yr hawsaf fydd gosod dyddiad targed realistig.<br><br>Efallai y bydd angen gwahanol ddyddiad targed ar gyfer pob rhan o'r cam gweithredu. | Dylai'r darparwr nodi pa unigolyn neu bwyllgor fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y cam gweithredu'n cael ei gwblhau.<br><br>Os rhoddir y cyfrifoldeb i unigolyn yn hytrach na phwyllgor, dylai'r cynllun gweithredu nodi ei rôl yn hytrach na'i enw/henw. | Dylai'r darparwr nodi sut y bydd yn gwybod, a sut y bydd yn dangos, bod cam gweithredu datblygiadol penodol wedi'i gyflawni'n llwyddiannus.<br><br>Unwaith eto, os oes camau gweithredu penodol a dyddiad targed clir ar gyfer cwblhau, bydd hi'n haws pennu dangosyddion llwyddiant priodol. |

# Atodiad 10: Y broses apelio ar gyfer Adolygiad Ansawdd Porth

## Beth yw apêl?

Apêl yw pan fydd darparwr yn herio canfyddiadau Adolygiadau Ansawdd Porth.

Cyflwynir apeliadau gan ddefnyddio Trefn Apelio QAA ar gyfer Adolygiad Ansawdd Porth[17]. Mae hon yn broses fewnol, ac nid yw'n gofyn am gynrychiolaeth gyfreithiol. Llunnir cyflwyniadau gan y darparwr sy'n apelio ('y darparwr') a chânt eu cyflwyno i Bennaeth Llywodraethu QAA.

Bydd gan ddarparwyr un wythnos ar ôl derbyn yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi i nodi eu bwriad i apelio.

Gellir gwneud apêl cyn pen cyfnod cyflwyno o bythefnos, a fydd yn cychwyn ar y dyddiad y derbynnir yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi.

Mae modd addasu'r amserlen yma i ystyried gwyliau cyhoeddus a dyddiadau pan fydd QAA wedi cau.

Mae pob darparwr yn gymwys i apelio yn erbyn canlyniad aflwyddiannus. Os bydd y darparwr yn dewis peidio apelio, bydd canlyniad eu hadolygiad yn cael ei gadarnhau i CCAUC.

Gellir cyflwyno apeliadau ar sail afreoleidd-dra trefniadol, neu ddeunydd newydd. Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw ddeunydd oedd yn bodoli pan wnaeth y tîm adolygu ei benderfyniad ac a fyddai, pe bai ar gael cyn i'r adolygiad gael ei gwblhau, wedi dylanwadu ar feirniadaethau'r tîm, ac y mae rheswm da pam nad oedd ar gael i'r tîm ar y pryd.

Nid yw'n bosibl apelio ar sail materion o feirniadaeth academaidd.

Mae apeliadau'n wahanol i gwynion. Pan fydd rhywun yn cwyno maent yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r gwasanaethau a ddarparwyd gan QAA neu bethau a wnaed gan QAA. Nid yw'r drefn apelio wedi'i llunio i gynnwys neu i ystyried cwynion. Pan gyflwynir cwyn ynghyd â'r apêl, bydd y gŵyn yn cael ei hatal nes bydd y drefn apelio wedi'i chwblhau, fel nad yw'r broses o ymchwilio'r gŵyn yn rhagfarnu'r broses o ymdrin â'r apêl, ac fel nad ystyrir bod y broses o ymchwilio'r gŵyn yn rhagfarnu'r broses o ymdrin â'r apêl.

## Cyfathrebu

Pan fydd darparwyr yn cyflwyno apêl, bydd y cysylltiad gydag unrhyw adolygwr, swyddog, Swyddog QAA neu Reolwr sydd wedi ymwneud â'r Adolygiad Ansawdd Porth yn dod i ben ar unwaith, a daw prif gysylltiadau'r darparwr yn Dîm Llywodraethu QAA. Ni ddylai unrhyw aelodau eraill o staff QAA a'r adolygwyr gyfathrebu'n uniongyrchol â'r darparwr mewn unrhyw ffordd ar ôl derbyn yr apêl, a dylent anfon unrhyw gyfathrebiadau y maent yn eu derbyn ymlaen at y Tîm Llywodraethu.

[17] Ar gael ar: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/ein-trefn-gwyno/cwyno-am-qaa-ac-apelio-yn-erbyn-penderfyniadau

*Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn y Gymraeg hefyd.*

Dyma'r ail argraffiad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020

Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf ym mis Gorffennaf 2018

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2020
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk